



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2022-2023



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Cynnwys

Cyflwyniad gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr	3
Cyflwyniad gan y Llywydd a'r Is-Ganghellor	5
Ffeithiau a Ffigurau Allweddol	8
Strategaeth a Pherfformiad	9
Llywodraethu Corfforaethol a Datganiad Rheolaeth Fewnol	14
Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau	31
Adolygiad Gweithredu ac Ariannol	34
Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gorff Llywodraethu Prifysgol Metropolitan Caerdydd (y "brifysgol")	42
Cyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol	46
Datganiad o'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu	48
Datganiadau Cyfunol a Datganiadau'r Brifysgol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	54
Datganiadau Cyfunol a Datganiadau'r Brifysgol o Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn	55
Datganiadau Cyfunol a Datganiadau'r Brifysgol o Sefyllfa Ariannol	56
Datganiad Llif Arian Cyfunol	57
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	58
Benthyciadau Ffederal yr Unol Daleithiau - Atodlen Atodol	73

Cyflwyniad gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr

Mae wedi bod yn fraint cael bod yn Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar ran Bwrdd y Llywodraethwyr, hoffwn ddiolch i'r Is-Ganghellor, staff a myfyrwyr am eu hegri, eu hymroddiad a'u gwaith caled parhaus. Mae wedi bod yn flwyddyn lle mae cynnydd clir wedi'i gyflawni.

Roeddwn yn falch iawn bod y Brifysgol wedi derbyn y wobwr am y Brifysgol orau yn y DU ar gyfer cynaliadwyedd gan People and Planet ym mis Rhagfyr 2022. Amlygodd hyn y cynnydd parhaus rydym wedi'i wneud - gan adeiladu ar ein llwyddiant yn sgil cael ein henwi'n 'Brifysgol y Flwyddyn y DU ac Iwerddon' Times Higher Education ym mis Rhagfyr 2021. Roedd ennill y wobwr cynaliadwyedd eleni'n atseinio'n glir gyda gwerthoedd y Brifysgol a'i myfyrwyr a'i staff.

Ym mis Rhagfyr 2022, lansiodd y Brifysgol ei chynllun strategol newydd 'Strategaeth 2030' yn swyddogol, a oedd yn egluro sut y byddwn yn cyflawni ein huchelgais o ddod yn brifysgol nodedig a blaengar sy'n perfformio'n uchel - gyda gweledigaeth a gwerthoedd cryf a diwylliant perfformiad uchel yn ei le'n gadarn. Yn ystod y flwyddyn, datblygodd a chymeradwyodd y Brifysgol Strategaethau Thematig i gefnogi Strategaeth 2030 (gan gynnwys: Dysgu, Addysgu ac Ymgysylltu â Myfyrwyr; Ymchwil ac Arloesi; Ymgysylltu Byd-eang; a Chenhadaeth Ddinesig) a Phedair Strategaeth Alluogi (gan gynnwys: Pobl; Cyllid; Stad; a Digidol). Gyda Mesurau Llwyddiant cysylltiedig, mae gan y Brifysgol gynlluniau uchelgeisiol, clir a chydlynol ar waith i sicrhau llwyddiant yn y dyfodol.

O ystyried yr heriau a achoswyd gan chwyddiant uchel yn y DU, braf oedd gweld y Brifysgol yn cyflawni twf a chynaliadwyedd ariannol da ar gyfer y flwyddyn. Cynyddodd trosiant y Brifysgol £16m i £153m, ein gwarged cyfrifyddu oedd £5.6m, a'n gwarged arian parod oedd £16m. Cyflawnodd y Brifysgol lefelau da o arian parod ar adnau o £55m hefyd y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ein cynlluniau

twf a buddsoddi yn y dyfodol. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn y Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r Brifysgol mewn sefyllfa dda yn awr i gefnogi ein cynlluniau ailddatblygu stad uchelgeisiol ar gyfer Campysau Llandaf a Chyncoed. Drwy Fwrdd Rhaglen Campws 2030, cafodd ein gwaith strategol ar ddatblygu ein huwchgynllun stadau ei ddatblygu'n gadarnhaol. Bydd yr uwchgynllun yn trawsnewid ein campysau i ddarparu manau addysgu, ymchwil, chwaraeon, byw a chymdeithasol rhagorol i fyfyrwyr a staff.



Cyflawnodd y Brifysgol y twf gofynnol mewn niferoedd myfyrwyr ar gyfer Medi 2022 ac Ionawr 2023 ar draws domisiliau, moddau a lefelau amrywiol. Roedd hyn yn adlewyrchu enw da cynyddol y Brifysgol a pha mor ddeniadol yw amrywiaeth o raglenni newydd ac arloesol a gynigir. Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn cydnabod bod y farchnad recriwtio myfyrwyr yn gynyddol gystadleuol, yn heriol ac weithiau'n anwadal, ac nad oes modd sicrhau twf parhaus o flwyddyn i flwyddyn bob amser.

Gwnaeth y Brifysgol gynydd cadarnhaol hefyd yn ei chanlyniadau Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS) a'i Chanlyniadau Graddedigion am y flwyddyn. Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn cydnabod pwysigrwydd 'profiad myfyrwyr' yn y Brifysgol a'r canlyniadau gwell ar gyfer y rhai sy'n ymuno â'r farchnad swyddi neu'n dilyn astudiaethau pellach.

Hysbyswyd Bwrdd y Llywodraethwyr yn rheolaidd am ddatblygiadau gan Lywodraeth Cymru i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Er bod heriau sylweddol i gyllid addysg uwch Cymru, bydd y Brifysgol yn parhau i weithio'n gadarnhaol ac yn adeiladol gyda Llywodraeth Cymru, y Comisiwn newydd a'r sector ehangach. Rydym am sicrhau hefyd bod y pwyslais ar 'Lais y Dysgwr' a 'Chenhadaeth Ddinesig' yn cael ei fynegi'n llawnach gan y Comisiwn a bod y Brifysgol yn mynd ati wedyn i roi trefniadau priodol ar waith.

Cytunodd Bwrdd y Llywodraethwyr ar gynigion i adolygu strwythur ei bwyllgorau i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Brifysgol yn cyd-fynd â chyflawni'r strategaeth newydd a bod aelodau'r Bwrdd yn darparu'r gwerth ychwanegol mwyaf posibl. Bydd ein strwythur pwyllgorau newydd yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2024 a bydd yn cynnwys Pwyllgor Pobl, Iechyd a Lles newydd. Bydd gan ein Pwyllgor newydd y dasg allweddol o edrych ar sut rydym yn datblygu ein diwylliant ar draws y Brifysgol a sut y gellir cefnogi iechyd a lles da i fyfyrwyr a staff mewn cyfnod o bwysau mawr, gyda'r

argyfwng costau byw a heriau eraill. Aeth Bwrdd y Llywodraethwyr ati hefyd i weithredu argymhellion terfynol Adolygiad Llywodraethu Cymru a'r Siarter cysylltiedig a'n Hadolygiad ein hunain o Effeithiolrwydd y Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraethwyr ein hunain yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo a sicrhau mwy o amrywiaeth yn aelodaeth y Bwrdd.

Cychwynnodd Bwrdd y Llywodraethwyr y broses chwilio a dethol ar gyfer recriwtio Llywydd ac Is-Ganghellor newydd yn dilyn y cyhoeddiad bod yr Athro Cara Aitchison yn bwriadu ymddeol o'i rôl ym mis Ionawr 2024. Hoffem ddiolch i Cara am ei hegni, ei brwdfrydedd a'i hymrwymiad ers ymuno â'r Brifysgol yn 2016. Darparodd aelodau'r Bwrdd wybodaeth a phrofiad hefyd wrth gymryd rhan yn y broses o recriwtio i swyddi uwch allweddol yn y Brifysgol yn ystod y flwyddyn - gan gynnwys tair swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Proffesiynol.

Hoffwn ddiolch i aelodau presennol a chyn-aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr a'i bwyllgorau amrywiol am eu hymrwymiad a'u cyfraniad at y Brifysgol. Mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi parhau i ddarparu cefnogaeth ymroddedig i nodau ac uchelgeisiau'r Brifysgol ac mae wedi sicrhau bod trefniadau llywodraethu a chraffu priodol ar waith.

Does dim amheuaeth bod cyfnodau anodd i ddod i'r sector addysg uwch i gyd, ond rwy'n hyderus y bydd y Brifysgol yn ymdopi â'r heriau yn llwyddiannus ac yn parhau â'n datblygiad trawiadol.

John Taylor (CBE)
Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr
29 Tachwedd 2023

Cyflwyniad gan y Llywydd a'r Is-Ganghellor

Yr hyn sy'n nodweddu prifysgolion llwyddiannus yw eu doniau, adnoddau, arweinyddiaeth a phartneriaethau. Mae gan Met Caerdydd, ei staff a'i myfyrwyr ddigonedd o'r nodweddion hyn a, thrwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, defnyddiwyd y cyfoeth hwn i gyflawni ein strategaeth o amrywiaethu, twf a gwelliant, gan wneud hynny gyda phwrpas, effaith a thosturi.

Mae cyrhaeddiad ac effaith ein prifysgol yn cael eu gwella gan ein gwerthoedd creadigrwydd, arloesedd, cynhwysiant ac ymddiriedaeth, gyda chefnogaeth ein hymddygiad o ran arweinyddiaeth, dewrder, atebolrwydd ac ystwythder. Gyda'i gilydd, mae'r gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn yn sail i'n diben ac maent yn cael eu hamlygu'n effeithiol iawn ar draws ymdrechion a chanlyniadau'r Brifysgol yn 2022/23.

Yn dilyn cael ei henwi'n 'Brifysgol y Flwyddyn y DU ac Iwerddon 2021' Times Higher Education ym mis Rhagfyr 2021, derbyniodd Met Caerdydd y wobwr am y Brifysgol orau yn y DU ar gyfer cynaliadwyedd gan People and Planet ym mis Rhagfyr 2022. Roedd y wobwr hon yn cydnabod Met Caerdydd fel arweinydd mewn cynaliadwyedd moesegol ac amgylcheddol, ac fe'i dyfarnwyd ar ôl i'r brifysgol weithredu amrywiaeth eang o fentrau cynaliadwyedd a rhoi blaenoriaeth, yn ein Strategaeth 2030, i ddod yn Brifysgol Sero Net.

Dangoswyd ein sail foesegol hefyd yn sgil ail-achredu'r Brifysgol, ym mis Ionawr 2023, fel Prifysgol Noddfa gan City of Sanctuary UK, ar ôl dod yn Brifysgol Noddfa gyntaf Cymru yn 2018. Wrth dderbyn y wobwr hon, canmolwyd y Brifysgol ar y ddarpariaeth sy'n gwneud Met Caerdydd yn noddfa, ynghyd â'r gwaith rydym yn ei wneud ar gyfer myfyrwyr ac academyddion sy'n wynebu risg, gan gynnwys ein partneriaeth â'r Cyngor ar gyfer Academyddion mew Perygl, y daeth ei Gyfarwyddwr Gweithredol, Stephen Wordsworth LVO CMG, yn Ganghellor i ni yn 2021.

Mae'r partneriaethau a'r mentrau hyn wedi bod yn bosibl oherwydd agwedd ryngwladol Met Caerdydd fel prifysgol sy'n gwasanaethu Cymru

a'r byd ehangach, gyda myfyrwyr o dros 130 o wledydd. Ym mis Medi 2022 a mis Ionawr 2023, croesawodd y Brifysgol ei nifer mwyaf erioed o fyfyrwyr rhyngwladol, gyda myfyrwyr rhyngwladol yng Nghaerdydd yn 23% o'r cyfanswm o bron i 13,000 o fyfyrwyr ar y campws. Cafodd 13,000 o fyfyrwyr rhyngwladol eraill eu hymrestru ar raglenni gradd Met Caerdydd yn ein 13 coleg partner mewn 13 gwlad ledled y byd, gan gynnwys mewn gwledydd yr effeithiwyd arnynt gan wrthdaro rhyngwladol. Gydol y flwyddyn, parhaodd staff a myfyrwyr i gefnogi darpariaeth addysg ac ymchwil yn ein gefeill-brifysgol yn Wcráin, Skovoroda National Pedagogic Prifysgol yn Kharkiv, a gwnaethom groesawu athletwyr a gymnastwyr rhanbarthol a chenedlaethol o Wcráin i Gampws Cyncoed i hyfforddi ar gyfer cystadlaethau rhyngwladol. Gan helpu i ailadeiladu cymdeithasau ar ôl gwrthdaro, bu staff a myfyrwyr



o'n rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon yn helpu i adeiladu ysgol yn Rwanda hefyd yn dilyn mentrau codi arian sylweddol.

Arweiniodd y cynnydd o ran recriwtio myfyrwyr at drosiant blynyddol uchaf y Brifysgol erioed, sef £153m, gan alluogi i warged o dros £16m gael ei gynhyrchu, a ddilynodd wargedion o dros £19.5m yn 2021/22 a thros £18m yn 2020/21.

Gwnaeth sylfaen ariannol gref alluogi buddsoddiad pellach yn Ysgol Dechnolegau Caerdydd a lansiwyd yn 2018 gyda chasgliad o raglenni israddedig, ôl-raddedig a phrentisiaethau gradd oedd â'r nod o ateb y galw gan fyfyrwyr ac anghenion cyflogwyr. Mae addysg ac ymchwil mewn roboteg ac AI wedi datblygu'n gyflym, gyda chryfderau mewn 'roboteg gwasanaeth', gan gynnwys partneriaethau ymchwil cydweithredol yn dylunio robotiaid ar gyfer ysbytai a lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru a Malaysia. Gyda thros 140 o robotiaid, mae'r Ysgol Dechnolegau hefyd wedi datblygu rhaglen ryngweithiol helaeth o sesiynau allgymorth GTPM mewn ysgolion hefyd sy'n dangos ymrwymiad cydweithwyr i ehangu mynediad at addysg uwch, uwchsgilio diwydiant a gweithwyr ledled Cymru, a hyrwyddo ymchwil ac arloesi yn rhyngwladol.

Gwelwyd effaith ymchwil y Brifysgol mewn gwaith a wnaed ar Gampysau Llandaf a Chyncoed ac ar draws pob un o bum Ysgol y Brifysgol, gyda llawer o'n hymchwil yn datblygu atebion rhyngddisgyblaethol wrth fynd i'r afael â rhai o broblemau mwy sefydledig cymdeithas.

Yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, er enghraifft, bu dylunwyr yn gweithio gyda gwyddonwyr iechyd i wella ansawdd bywyd pobl â dementia datblygedig drwy greu a gwerthuso effeithiolrwydd gwrthrychau a ddyluniwyd ar gyfer chwarae, creadigrwydd a chyffwrdd. Mae'r rhain yn cynnwys yr HUG™ arloesol sydd wedi'i fasnacheiddio drwy gwmni deillio a'i brynu gan y GIG a darparwyr gofal eraill yn dilyn ei gyfraniad cydnabyddedig at fwy o allu swyddogaethol a gwybyddol mewn 87% o gleifion a gymerodd ran mewn treialon.

Yn Ysgol Reoli Caerdydd, mae myfyrwyr a staff yn parhau i ddatblygu mentrau entrepreneuriaidd, gan gynnwys rhaglen Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol (CAEG) sydd wedi dod â sefydliadau o bob rhan o Gymru ynghyd i weithredu egwyddorion

hollbwysig yr Economi Gylchol a sefydlu rhwydweithiau arloesi cydweithredol i adeiladu dyfodol mwy cynaliadwy. Mae rhaglen CEIC wedi cefnogi 45 o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda thros 80 o gyfranogwyr yn gweithio ar 17 o heriau. Mae enghreifftiau o'r heriau'n cynnwys ôl-osod tai cymdeithasol, defnyddio tir ar gyfer tyfu cymunedol, addasu cardbord at ddibenion gwahanol yn y GIG a datblygu bot deallusrwydd artifffisial i gefnogi gweithgarwch caffael.

Yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd, parhaodd cydweithwyr i redeg Canolfan Strôc Cymru a Met Caerdydd oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru mewn bron i 30 mlynedd i dderbyn cyllid Grant Prosiect gan y Gymdeithas Strôc i gynnal ymchwil sy'n ceisio darparu dealltwriaeth hollbwysig i atal a thrin strôc drwy ddadansoddi biofarcwyr yn dilyn 'mân strôc' gyntaf claf. Mae'r prosiect yn enghraifft wych o gydweithio rhwng addysg uwch, y GIG a phartneriaid yn y trydydd sector mewn ymchwil a allai gael effaith hollbwysig ar ofal cleifion, gan fod o fudd i boblogaeth Cymru a thu hwnt. Parhaodd partneriaethau â'r sector masnachol i gael eu datblygu a'u cefnogi gan ein tîm amlddisgyblaethol, gan gefnogi'r gwaith o gynhyrchu cynhyrchion newydd a swyddi newydd yn sector bywd a diod Cymru.

Yn Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, nododd Llywodraeth Cymru fod ein prosiect Amrywiaeth a Dysgu Proffesiynol Gwrth-hiliol yn hanfodol i gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru a chyflawni safonau uchel a dyheadau i bawb wrth i ni weithio ar y cyd tuag at Gymru wrth-hiliol erbyn 2030 yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Cafodd y tîm sy'n arwain y prosiect ei enwebu hefyd am Wobr Times Higher Education yn 2022 yn y categori Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant; bydd y gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i'r Brifysgol wrth i ni ddatblygu ein cyflwyniad ar gyfer y Marc Siarter Cydraddoldeb Hiliol a'i ymgorffori yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae myfyrwyr a staff o bob rhan o'r Brifysgol wedi cyfrannu at ein rhaglen 'Campws Agored' a ddarparodd gyfleoedd gweithgarwch corfforol, chwaraeon, iechyd a lles i dros 9,000 o blant ysgol ledled Caerdydd y llynedd, gan ehangu cyfleoedd a chodi dyheadau. Mae'r dull cymunedol hwn o

ddarparu addysg wedi bod yn ganolog i genhadaeth ddinesig Met Caerdydd a darparodd dros 1,000 o fyfyrwyr weithgareddau drwy'r Campws Agored, gan ymgysylltu â 41 o ysgolion, gyda 24 ohonynt mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol is. Yn ogystal, darparwyd bron i 600 o leoliadau ar y campws a lleoliadau cymunedol ar gyfer myfyrwyr, gan helpu i wella rhagolygon graddedigion ar draws y Brifysgol i dros 77%, sydd 3% yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mewn chwaraeon perfformiad, gwelsom lwyddiannau cenedlaethol a rhyngwladol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys un o'n myfyrwyr yn gapten ar dîm rygbi merched Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd ym mis Hydref 2022, a myfyriwr arall yn rhan o'r tîm hyfforddi ar gyfer Cwpan y Byd Rygbi 7 Bob Ochr i Bobl Fyddar yn yr Ariannin. Coronwyd ein tîm criced Dynion yn Bencampwyr Cenedlaethol BUCS a gwelsom lawer o'n cyn-fyfyrwyr yn cyflawni llwyddiannau chwaraeon, gan gynnwys medal aur i Rosie Eccles mewn Bocsiio yng Ngemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 a llwyddiant ym Mhencampwriaethau Athletau Prydain 2022 gyda medal aur i Adele Nicoll yn y gystadleuaeth taflu pwysau. Rwy'n falch iawn o adrodd bod Met Caerdydd yn Bartner Addysg Uwch Tîm Cymru Gemau'r Gymanwlad erbyn hyn, i ddatblygu ymchwil chwaraeon, technoleg a chyfryngau digidol, menywod mewn arweinyddiaeth chwaraeon, lleoliadau myfyrwyr a chasgliad o raglenni sy'n canolbwyntio ar ysgolion a chymunedau ledled Cymru. Mae'r Brifysgol wedi dod yn Ganolfan Datblygu Rygbi Menywod a Merched Dwyrain Cymru Undeb Rygbi Cymru hefyd; mae hyn yn ychwanegu at gael ein dewis fel un o ddim ond pedair canolfan yn y DU ar gyfer pêl-fasged cadair olwyn menywod o'r radd flaenaf y llynedd.

Mae ein hagwedd fyd-eang, ein partneriaethau rhyngwladol a'n chwaraeon yn ein cysylltu â'r byd ehangach ac yn ein hatgoffa ein bod wedi'n gwreiddio yng Nghymru ac ar gyfer Cymru. Y llynedd, gwelwyd cynnydd pellach yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 276 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd (traean) o'u modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae staff a myfyrwyr Met Caerdydd mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol sy'n wynebu Cymru a'r byd

ehangach. Rydym yn bwriadu cydweithio ymhellach â llywodraethau, busnes, diwydiant a'r trydydd sector i fynd i'r afael â thanariannu addysg uwch, ymchwil ac arloesi, yr argyfwng costau byw, etifeddiaeth Brexit a'r pandemig Covid a'r gwrthdaro parhaus ledled y byd. O fewn y brifysgol, rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau gydag Undeb y Myfyrwyr a'n dau Undeb Llafur cydnabyddedig, UCU ac Unsain; mae'n gwehyddu edefyn aur partneriaeth drwy'r cyfan a wnawn sy'n ein gwneud ni'n UnMetCaerdydd.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'n partneriaid am ymddiried ym Met Caerdydd a thrwy ddiolch i'n staff am eu gwaith aruthrol mewn hinsawdd economaidd heriol iawn. Mae ymrwymiad fy nghydweithwyr i Met Caerdydd yn ddiwyro ac mae eu hymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf hon, fel erioed, wedi'u cyflawni gyda'r gwerthoedd, y pwrpas, yr effaith a'r tosturi rwyf wedi dod i'w parchu a'u hedmygu ers 2016 pan gefais y fraint o wasanaethu fel Llywydd ac Is-Ganghellor y Brifysgol wych hon.

Yr Athro Cara Aitchison
Llywydd ac Is-Ganghellor
29 Tachwedd 2023

Ffeithiau a Ffigurau Allweddol



Perfformiad Ariannol

Gwarged cyfrifyddu gweithredol	£6m
Gwarged cyfrifyddu gweithredol fel % o incwm	4%
Gwarged arian gweithredol	£16m
Dyled hirdymor fel % o incwm	12%

2023 wedi'i dalgrynnu i'r £m neu'r % agosaf



Nifer y Myfyrwyr

Ôl-raddedigion	4,132
Israddedigion	8,338
Myfyrwyr tramor	22%

Data HESA Met Caerdydd 2021-22
Data HESA 2022-23 ddim ar gael cyn cymeradwyo



Staffio

Cyfanswm staff	1,523
Staff academaidd	586

FTE 2022-23



Profiad Myfyrwyr

Gwobrau Student Crowds

- Safle 29 o blith 140 o brifysgolion
- NSS 73% Gorffennaf 2023
- NSS Cyflawnodd y cwestiwn 'Pa mor dda yw staff addysgu am esbonio pethau?' lefelau boddhad o 89 y cant Gorffennaf 2023.



Ymchwil

Cyflwyniad Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021

- Dangosodd y canlyniadau fod 70% o'n cyflwyniad cyffredinol wedi'i ddyfarnu naill ai'n Rhagorol yn Rhyngwladol neu'n Arwain y Byd.



PRES

- Cafodd Met Caerdydd ganlyniad rhagorol yn Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedig AU-Uwch (PRES), gyda chyfradd boddhad cyffredinol o 90%. Mae hyn yn rhoi'r Brifysgol yn yr ail safle o blith y 58 Sefydliad Addysg Uwch a gymerodd ran, 10% yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith SAUau. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i Met Caerdydd gael ei henwi yn y tri uchaf am foddhad cyffredinol 2022-23.



Cyflogadwyedd

- Mae Met Caerdydd yn yr wythfed safle yn y DU am gyflogadwyedd graddedigion a bywyd myfyrwyr yn ôl tablau Uni Compare 2023.



Cynaliadwyedd

- Cynghrair werdd People & Planet – wedi'i henwi fel y brifysgol orau yn y DU am gynaliadwyedd 2022.



Tablau'r DU

- Yn safle 71 yn Nhabl y Complete Uni Guide 2024
- Yn safle 73 yn Good Uni Guide y Guardian 2023.



Tablau'r Byd

Tabl Prifysgolion y Byd

- Roedd Met Caerdydd yn y 1201-1500ain safle 2024
- Tabl Prifysgolion y Byd QS 2023
- Yn safle 101-140 am bynciau sy'n gysylltiedig â chwaraeon
 - Yn safle 151-160 am Reoli Lletygarwch a Hamdden.

Strategaeth a Pherfformiad

Strategaeth Met Caerdydd 2030: Rhagorol i Eithriadol

Mae Strategaeth 2030 yn cynnal y momentwm a sefydlwyd dros y pum mlynedd diwethaf fel y gall Met Caerdydd gyflawni ei huchelgais o sefydlu ei hun fel prifysgol nodedig a blaengar sy'n perfformio i safon uchel gydag enw da cryf, cyllid cynaliadwy, partneriaethau proffesiynol arloesol a chyrhaeddiad ac effaith leol, genedlaethol a byd-eang sylweddol.

Mae Strategaeth 2030 yn adeiladu ar yr ymdeimlad o ddiben, proffesiynoldeb a dyhead a ddatblygwyd gan y strategaeth lwyddiannus a lansiwyd yn 2017. Bydd Strategaeth 2030 yn datblygu ffocws y sefydliad ymhellach ar werthoedd, profiadau dysgu rhagorol sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer bywyd, ac ymchwil ac arloesi gydag effaith bwrpasol a chyrhaeddiad byd-eang. Byddwn yn ymateb i alw myfyrwyr ac anghenion cyflogwyr i fynd i'r afael â heriau lleol, cenedlaethol a byd-eang mawr, wrth i ni ailadeiladu ein heconomi a'n cymdeithas yn dilyn y pandemig, gan wella enw da a sefydlogrwydd ariannol y Brifysgol a chryfhau ein cyrhaeddiad a'n heffaith ar yr un pryd.

Ein Gweledigaeth

Mae Met Caerdydd yn brifysgol flaengar. Rydym yn gweithio gyda phwrpas, effaith a thosturi ac mewn partneriaeth bob amser. Rydym yn gwneud economïau'n fwy llewyrchus, cymdeithasau'n decach, diwylliannau'n gyfoethocach, amgylcheddau'n wyrddach a chymunedau'n iachach. Mewn partneriaeth â'n myfyrwyr, ein staff a'n rhanddeiliaid, rydym yn trawsnewid bywydau unigol yng Nghymru a'r byd ehangach drwy addysg effaith uchel, o ansawdd uchel wedi'i llywio gan ein hymchwil a'n harloesedd sy'n torri tir newydd.

Mae Strategaeth 2030, a ddatblygwyd yn dilyn ein henwi'n 'Brifysgol y Flwyddyn y DU ac Iwerddon 2021' Times Higher Education, yn amlinellu sut y byddwn yn parhau i dyfu, amrywiaethu a gwella, gyda'r nod o sicrhau ein lle fel un o 50 prifysgol orau'r DU erbyn 2030 a chyrhaedd ac esgyn tabl QS y byd, sef yr allwedd i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol o ansawdd uchel. Bydd gwella ein henw da yn gwneud Met Caerdydd yn ddewis cyntaf i fyfyrwyr sy'n astudio ac academyddion sy'n ymchwilio yn y meysydd canlynol:

- celf a dylunio
- busnes a rheoli
- addysg a gwasanaethau cyhoeddus
- chwaraeon a gwyddorau iechyd
- technolegau a pheirianeg
- yr amgylchedd a chynaliadwyedd

Mae ein partneriaethau'n ymestyn o'n campysau prifysgol yng Nghaerdydd i addysg bellach, busnes, diwydiant, elusennau, llywodraeth a chymunedau ledled Cymru a'r DU. Mae ein partneriaid addysg byd-eang yn darparu graddau o ansawdd uchel ledled y byd, tra bod ein cydweithrediaid ymchwil rhyngwladol yn gweithio i ddatrys rhai o'r heriau byd-eang sydd wedi ymwreiddio ddyfnaf. Mae ymchwil o'r fath yn cynnwys:

- gwella ansawdd bywyd i bobl â dementia datblygedig drwy'r ddyfais therapiwtig HUG™ arobryn sy'n cael ei gweithgynhyrchu a'i dosbarthu drwy gwmni deillio a gefnogir gan Gymdeithas Alzheimer y DU ac a ragnodir ar y GIG
- lleihau effaith diabetes ym Mauritius lle'r oedd ein hymchwil yn sail i raglen sgrinio traed diabetig genedlaethol a fydd yn cyfrannu at achub mwy na 2,100 o fywydau erbyn 2029
- ymchwil ar atal anafiadau i'r pen mewn criced a rygbi rhyngwladol - gan arwain at Safon Brydeinig newydd ar gyfer Amddiffynwyr Pen yn cael ei mabwysiadu gan bob un o'r 104 o wledydd sy'n chwarae criced a Rhaglen Addysg Cyfergyd gorfodol URC ar gyfer chwaraewyr, hyfforddwyr a dyfarnwyr

Byddwn yn datblygu ein cysylltiadau rhyngwladol, ein diplomyddiaeth ddiwylliannol a'n pŵer meddal gyda'n harweinyddiaeth meddwl a'n gweithredoedd fel Prifysgol Noddfa yn gwneud cyfraniad allweddol at sefydlu Cymru fel Cenedl Noddfa

Rydym yn ymgorffori diwylliant perfformiad uchel gydag ôl troed carbon isel, gan newid y byd wrth ddod yn brifysgol carbon sero net ar draws ein campysau erbyn 2030.

Strategaethau Thematig

Mae pedair elfen thematig i Strategaeth 2030:

Dysgu, Addysgu ac Ymgysylltu â Myfyrwyr

Darparu amgylchedd addysgol arloesol sy'n cynorthwyo myfyrwyr i gyflawni eu huchelgais bersonol a phroffesiynol, trwy nodi a chysylltu eu dysgu o weithgareddau cwricwlaidd a chyd-gwricwlaidd.

Ymgysylltu Byd-eang

Cryfhau ymgysylltu byd-eang ar hyd a lled gweithgareddau'r brifysgol er mwyn iddynt gyflawni gyda phwrpas, effaith a thosturi.



Ymchwil ac Arloesi

Meithrin ein portffolio ymchwil ac arloesi drwy adeiladu gallu, gwella ein hamgylchedd ymchwil, gwella ansawdd, dwysedd, cyrhaeddiad ac effaith ein hallbynnau ymchwil ac arloesi.

Cenhadaeth Ddinesig

Ymestyn ein gweithgaredd cenhadaeth ddinesig, gan adeiladu ar ein gwaith presennol i gyfoethogi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Ymgysylltu â Myfyrwyr

Mae'r strategaeth thematig hon yn rhoi lle blaenllaw i les myfyrwyr ym mhopeth a wnawn, gan weithio o fewngiliaucwricwlwm sy'n adeiladu ar ein llwyddiant blaenorol wrth ymwreiddio sgiliau EDGE Met Caerdydd - sgiliau Moesegol, Digidol, Byd-eang ac Entrepreneuriaidd sy'n datblygu hyder, gwytnwch a phrofiadau - wedi'u hymestyn drwy fwy o bwyslais ar gynaliadwyedd a thegwch.

Mae pedair egwyddor sy'n sail i'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Ymgysylltu â Myfyrwyr hon:

- Cyflwynir profiad a chanlyniadau myfyrwyr yn y meysydd cwricwlaidd a chyd-gwricwlaidd, gyda chyfleoedd i'r manau hyn gael eu llywio ymhellach gan ddewisiadau wrth ddatblygu portffolio a'r ymarfer addysgegol.
- Mae profiad a chanlyniadau myfyrwyr yn cael eu gwella drwy gefnogaeth gan raglen barhaus o diwtora personol/hyfforddiant academiaidd sy'n cydnabod heriau'r daith addysgol ac yn caniatáu i fyfyrwyr wneud dewisiadau gwybodus i gyflawni eu huchelgais wrth iddi ddatblygu. Mae'r elfen hon o weithgarwch hyfforddiant academiaidd yn darparu agwedd unigryw ar gynnig Met Caerdydd, ac yn gwreiddio ein dysgu disgyblaethol o fewn ymarfer cyffredin ein cymuned.
- Mae uchelgeisiau Strategaeth 2030 yn mynnu ein bod yn cyflwyno fframiau lluosog i ddatblygiad ein gweithgareddau yn y maes hwn: cynaliadwyedd, cynnwys partneriaeth, lles, yr amgylchedd, cyfle yn y Gymraeg a chysylltedd ymchwil.
- Bydd ein gweithredoedd yn cael eu sbarduno gan ddata, eu cyd-adeiladu â grwpiau rhanddeiliaid, eu datblygu o fewn gwerthfawrogiad o'n ffyrdd o weithio a nodwyd gennym, a'u gwerthuso yn erbyn eu cyfraniad at ddangosyddion perfformiad.

Ymchwil ac Arloesi

Mae'r strategaeth thematig hon yn adeiladu ar sylfeini'r strategaeth flaenorol, a bydd yn defnyddio cynnydd yn y cyllid Ymchwil sy'n Gysylltiedig ag Ansawdd a buddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi i recriwtio a chadw mwy o staff ymchwil o safon uchel gyda mwy o amser llwyth gwaith yn cael ei neilltuo i weithgareddau ymchwil ac arloesi.

Y pedwar maes blaenoriaeth yn y strategaeth ymchwil ac arloesi yw:

- Cynyddu incwm ymchwil ac arloesi.
- Cynyddu maint ac ansawdd allbynnau ymchwil fesul FTE sy'n cynnal ymchwil ar hyn o bryd.
- Cynyddu nifer y busnesau newydd a sefydlir gan raddedigion.
- Datblygu darpariaeth cymorth Ymchwil Ôl-raddedig yn unol ag uchelgeisiau twf ac arfer gorau'r sector.



Ymgysylltu Byd-eang

Bydd y strategaeth thematig hon yn gwella statws y Brifysgol fel cymuned dysgu ac ymchwil fyd-eang arloesol, effeithiol ac ysbrydoledig sy'n gwella cymdeithasau, economïau a bywydau unigol. Bydd yn cyfrannu at uchelgeisiau'r Brifysgol ar gyfer twf o ran maint, cwmpas a statws drwy gydol cyfnod y strategaeth drwy gryfhau ymgysylltiad byd-eang ar draws holl weithgareddau'r Brifysgol.

Mae pum blaenoriaeth yn y strategaeth Ymgysylltu Byd-eang, sef:

- Darparu amgylchedd addysgol grymus sy'n amrywiol yn ddiwyllianol ac yn gynhwysol, gan baratoi ein myfyrwyr, staff a chyn-fyfyrwyr i ffynnu fel dinasyddion byd-eang sy'n effeithiol yn rhyngddiwyllianol.
- Cynyddu ac ymestyn cydweithrediadau strategol a rhyngwladol o ansawdd uchel mewn ymchwil, arloesi a chyfnod gwybodaeth, gan wella ein cyfraniad at ddatrys heriau byd-eang ein hoes.
- Llywio ein partneriaethau addysgol trawswladol, strategol o ansawdd uchel oddi ar y campws i ymestyn ein heffaith, ein cyrhaeddiad a'n henw da wrth i ni feithrin capasiti dramor a chyfrannu at les unigolion, economïau a chymdeithasau'n fyd-eang.
- Rheoli ein myfyrwyr rhyngwladol ar y campws yn rhagweithiol drwy ddatblygu mecanweithiau cyflawni sy'n cynyddu cyfraddau cadw, ymgysylltiad a chynnydd myfyrwyr rhyngwladol yn ystod eu hastudiaethau, a'u hymgysylltiad fel aelodau graddedig o rwydweithiau cyn-fyfyrwyr byd-eang gweithredol.
- Datblygu ein gweithgarwch rhyngwladol mewn ffyrdd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol er budd cenedlaethau'r dyfodol gan gyd-fynd â nodau a fframweithiau cenedlaethol a rhyngwladol allweddol.

Cenhadaeth Ddinesig

Mae'r strategaeth Cenhadaeth Ddinesig yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny ar ymdrechion y Brifysgol sy'n dod â budd gwirioneddol i amrywiaeth eang o randdeiliaid y tu hwnt i ddefnyddwyr uniongyrchol a chomisiynwyr darpariaeth addysg ac ymchwil y Brifysgol.

Mae pum blaenoriaeth strategol yn y Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig, sef:

- Cynyddu symudedd cymdeithasol
- Lleihau anghydraddoldeb economaidd
- Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- Gwella cynaliadwyedd amgylcheddol
- Darparu sylfaen ariannu cynaliadwy

Strategaethau Galluogi

Yn sail i'r strategaeth a'r pedwar maes thematig mae ein strategaethau galluogi, a fydd yn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein huchelgais strategol. Mae pedair elfen o'r strategaethau galluogi sydd â'r nod o sicrhau bod Met Caerdydd yn cyflawni ei huchelgeisiau o weithio gyda phwrpas, effaith a thosturi i ddatblygu o ragorol i eithriadol ym mhopeth a wnawn:

- Cyllid: byddwn yn parhau i geisio gynyddu ac amrywiaethu ein sylfaen incwm, gan sicrhau sefydlogrwydd ariannol a hyrwyddo cynaliadwyedd ariannol hirdymor er mwyn cefnogi'r buddsoddiad trawsnewidiol yn seilwaith dynol, ffisegol a digidol y Brifysgol.
- Stad: byddwn yn trawsnewid ein stad i fod yn garbon sero net erbyn 2030, ac yn parhau i ddarparu amgylcheddau rhagorol, arloesol a hynod gynaliadwy ar gyfer dysgu, gweithio, byw, chwarae a chymdeithasu. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gymysgedd o adeiladau

newydd sy'n ystyriol o'r byd o'n cwmpas ac addasu ac adfywio ein stad bresennol at ddibenion gwahanol i sicrhau'r cynaliadwyedd mwyaf posibl.

- Pobl: byddwn yn creu Strategaeth Pobl newydd i lywio diwylliant perfformiad uchel sy'n cael ei sbarduno gan werthoedd, sy'n gefnogol ac yn hyblyg, gan alluogi ein pobl i ddefnyddio eu doniau i ffynnu a llwyddo, ac i weithio mewn partneriaeth fel bod ein myfyrwyr yn cael profiadau dysgu, addysgu ac ymchwil rhagorol.
- Digidol: byddwn yn manteisio'n llawn ar ein dull digidol sy'n canolbwyntio ar bobl i gyflawni newid eithriadol, cynaliadwy a thrawsnewidiol. Bydd ein Strategaeth Ddigidol yn darparu gweithgareddau effeithiol o ansawdd uchel drwy ddarpariaeth academaidd a chymorth i fyfyrwyr, penderfyniadau wedi'u llywio gan ddata, ymchwil rhyngddisgyblaethol, partneriaethau lleol a byd-eang a gweithle digidol integredig.

Olrhain ein Cynnydd

Mae 21 o fesurau llwyddiant yn sail i'r strategaeth, y themâu a'r strategaethau galluogi; mae targedau carreg filltir wedi'u mapio ar gyfer pob maes ac mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn monitro'r cynnydd tuag at y targedau.



Llywodraethu Corfforaethol a Datganiad Rheolaeth Fewnol

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i safonau uchel o lywodraethu corfforaethol. Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth addysg uwch a ffurfiwyd drwy statud ac mae ganddi statws elusennol. Mae eisiau dangos bod ei llywodraethu'n cael ei wneud mewn modd agored ac atebol a'i bod yn cydymffurfio ag arfer gorau yn y sector addysg uwch.

Mae'r Datganiad hwn yn disgrifio'r modd mae'r Brifysgol wedi cymhwyso'r egwyddorion a nodir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018) yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Ei ddiben yw helpu darllenydd yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol i ddeall sut mae'r egwyddorion hyn wedi'u cymhwyso.

Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod system gadarn o reoli a llywodraethu risg ar waith. Nod y system yw rheoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes a dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd absoliwt, yn erbyn camddatganiadau neu golled berthnasol y gall ei ddarparu. Mae'r Llywodraethwyr yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy'r elfennau canlynol:

- Adolygiad effeithiol gan y corff llywodraethu a phwyllgorau perthnasol, yn enwedig y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau a'r Pwyllgor Adnoddau.
- Sicrhau bod systemau rheoli effeithiol ar waith, gan gynnwys polisïau, amcanion a chynlluniau, rheoli risgiau a chyfleoedd allweddol, monitro perfformiad ariannol a gweithredol, diogelu asedau'n ffisegol, gwahanu dyletswyddau, gweithdrefnau awdurdodi a chymeradwyo, a systemau gwybodaeth.
- Gwasanaeth archwilio mewnol ac allanol effeithiol.
- Proses nodi a rheoli risg wedi'i gwreiddio ym mhob system fusnes.

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gydymffurfio â Chod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020). Mae dull y Brifysgol o reoli risg yn effeithiol wedi'i nodi isod:

- Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ar reoli risg yn weithredol fel rhan annatod o'r broses reoli ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Mae'r Brifysgol yn nodi risgiau amrywiol i gyflawni ei hamcanion yn glir drwy ei fframwaith rheoli risg. Gall y risgiau hyn fod yn strategol neu'n weithredol a gall fod ganddynt oblygiadau posibl i enw da'r Brifysgol, ei sefyllfa ariannol neu ei gweithrediadau arferol.
- Mae'r Brifysgol yn integreiddio rheoli risg yn y broses gynllunio flynyddol sy'n helpu'r Weithrediaeth i bennu a chydlynu gweithgareddau academaidd a gweithgareddau eraill y Brifysgol.
- Mae'r Brifysgol yn annog pob rheolwr i ystyried goblygiadau risg pob penderfyniad, contract neu brosiect mawr fel rhan arferol o'u gwaith bob dydd.
- Mae'r Weithrediaeth yn ymdrechu i nodi a chanolbwyntio ar risgiau uniongyrchol a thros dro gyda goblygiadau strategol, yn ogystal ag ar y risgiau mwy parhaol a sylweddol a nodir yng nghofrestr risg y Brifysgol.
- Disgwylir i reolwyr gysylltu nodi risg â chamau gweithredu, p'un ai wrth liniaru'r risg neu mewn ymateb i risg.
- Mae'r Weithrediaeth yn gweithio gyda phum Deon yr Ysgol a Chyfarwyddwyr adrannau Gwasanaethau Proffesiynol i annog a chefnogi rheoli risg effeithiol fel rhan o ddull rheoli arferol y sefydliad, ac yn benodol i'w helpu i nodi, gwerthuso, rheoli ac adrodd risg.

- Mae'r Bwrdd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio adolygu cofrestr risg y Brifysgol yn fanwl bob tymor. Yna, caiff hyn ei adrodd i'r Bwrdd. Mae'r gofrestr risg yn nodi risgiau sylweddol ac yn cynnwys manylion am y canlynol: diffiniad o risg; perchennog risg; tebygolrwydd risg; effaith risg; sgôr risg Coch Oren Gwyrdd; ymateb i risg – trin, goddef neu ddileu; camau lliniaru; tueddiad risg – cynyddu, gostwng neu heb newid; rheolwr risg; ac agosrwydd risg.
- Cytunodd y Pwyllgor Archwilio ar Strategaeth Archwilio ar gyfer 2022-25 a Chynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyda'i Archwilwyr Mewnol. Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn nodi'r dull arfaethedig, seiliedig ar risg o reolaeth fewnol, methodoleg y strategaeth archwilio a'r rhaglen dreigl o archwiliadau a oedd yn ymdrin â risgiau busnes, gweithredol a chydymffurfiaeth, yn ogystal â risg ariannol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu digonolrwydd y broses o reoli risg yn y Brifysgol yn rheolaidd wrth iddi barhau i gael ei datblygu.

Mae'r Brifysgol, drwy ei Phwyllgor Archwilio, wedi penodi Archwilwyr Mewnol newydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol flaenorol am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Gwnaed y penodiad ar ôl i'r contract ddod i ben gyda'r darparwr gwasanaethau archwilio mewnol blaenorol ar ôl cyfnod o chwe blynedd. Yn ystod 2022-23, parhaodd y berthynas broffesiynol rhwng y Brifysgol a'i Harchwilwyr Mewnol i ddatblygu wrth i brosesau, systemau a ffyrdd o weithio gael eu hymwreiddio ymhellach. Aeth y Pwyllgor Archwilio ati i ail-gymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol fel rhan o'i Strategaeth Archwilio a'i Chynllun Mewnol ar gyfer 2022-23. Roedd hyn yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Cynhaliodd yr Archwilwyr Mewnol 15 adolygiad archwilio mewnol a gynlluniwyd yn ystod 2022-23, a mynegi barn bod y Brifysgol wedi cyflawni lefel 'resymol' o sicrwydd yn gyffredinol yn ei threfniadau rheoli risg. Dywedodd yr Archwilwyr Mewnol fod

gan y Brifysgol brosesau rheoli a llywodraethu risg rhesymol ac effeithiol ar waith. Roedd hyn yn cynrychioli'r un lefel o sicrwydd ag ar gyfer 2021-22 ac yn welliant ar flynyddoedd blaenorol lle cyflawnwyd lefel 'gymedrol' o sicrwydd yn 2020-21 a lefel 'gyfyngedig' yn 2019-20. Esboniodd yr Archwilwyr Mewnol y byddai'n anarferol i sefydliad o faint sylweddol y Brifysgol gyflawni'r lefel 'sylweddol' uwch o sicrwydd cyffredinol.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Brifysgol ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 a bod y broses hon yn dal i fod ar waith hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol a'r Adolygiad Blynyddol. Caiff y broses ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd ac mae'n cyd-fynd â'r canllawiau rheolaeth fewnol ar gyfer cyfarwyddwyr ar God Llywodraethu Corfforaethol y DU fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prydain.

Asesodd Archwilwyr Mewnol y Brifysgol drefniadau llywodraethu corfforaethol y Brifysgol yn uniongyrchol fel rhan o adolygiad Archwilio Mewnol o Reolaethau Strategol yn ystod 2022-23. Cyflawnwyd lefel 'sylweddol' o sicrwydd. Roedd hyn yn cynrychioli'r un lefel o sicrwydd ag a gyflawnwyd yn yr archwiliad blaenorol yn 2020-21. Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn parhau i adolygu ei drefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol yn rheolaidd. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau ar gyfer cyfarwyddwyr sydd yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prydain.

Mae Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn cynnwys aelodau a benodwyd yn unol ag Erthyglau ac Offeryn Llywodraethu'r Brifysgol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys mwyafrif o aelodau annibynnol (lleyg), a staff etholedig a myfyrwyr. Mae'r Is-Ganghellor yn aelod ex-officio hefyd. Rhestrir isod yr Aelodau a wasanaethodd ar y Bwrdd yn ystod 2022/23, gan gynnwys ffotograffau a'u presenoldeb. Roedd pob Llywodraethwr yn aelod o'r Bwrdd am y cyfnod adrodd cyfan, heblaw lle nodir yn wahanol.

Mae'r rhan fwyaf o'r Llywodraethwyr yn aelodau lleyg annibynnol gyda gwybodaeth a phrofiad perthnasol mewn busnes ac yn y proffesiynau. Mae rôl Cadeirydd y Bwrdd wedi'i gwahanu oddi wrth Lywydd ac Is-Ganghellor y Brifysgol. Mae'r materion hynny sydd wedi'u cadw'n benodol i'r Bwrdd benderfynu arnynt



wedi'u nodi yn Erthyglau ac Offeryn Llywodraethu'r Brifysgol. Cefnogir hyn gan fframwaith llywodraethu ehangach sy'n cynnwys Cynllun Dirprwyo cytunedig y Brifysgol, cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau unigol a rheoliadau ariannol. Mae'r Bwrdd yn cadw iddo'i hun y cyfrifoldebau dros gyfeiriad strategol parhaus y Brifysgol, y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau a chymeradwyo datblygiadau mawr, ac mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd gan uwch reolwyr.

Mae'r Brifysgol yn sicrhau annibyniaeth ei Haelodau Lleyg o Fwrdd y Llywodraethwyr drwy sicrhau nad oes gan unrhyw un o'r unigolion hyn unrhyw berthynas berthnasol â'r Brifysgol nac unrhyw bobl gysylltiedig. Mae'r Brifysgol yn rheoli gwrthdaro buddiannau drwy gynnal adolygiad blynyddol o'i Chofrestr Buddiannau, gan ofyn i aelodau ddiweddarau eu datganiad pryd bynnag y bydd newid, a chyhoeddi unrhyw wrthdaro cyn dechrau unrhyw gyfarfodydd Bwrdd neu Bwyllgor. Mae'r Brifysgol yn gofyn i'r unigolion canlynol lenwi ffurflen flynyddol ar gyfer y Gofrestr Buddiannau: holl aelodau'r Bwrdd, holl uwch aelodau staff y Brifysgol ar Lefelau 1 i 3, yn ogystal â staff allweddol eraill sy'n gweithio'n ddigon agos at brosesau penderfynu, contractio neu gaffael y Brifysgol.

Cyfarfu'r Bwrdd saith gwaith yn ystod 2022-23. Yn ystod y cyfnod hwn, gweithredodd y Bwrdd chwe Phwyllgor lefel llywodraethwyr, sef:

- Pwyllgor Archwilio
- Bwrdd Rhaglen Campws 2030
- Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau
- Pwyllgor Taliadau
- Pwyllgor Adnoddau
- Pwyllgor Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Cafodd pob pwyllgor ei gyfansoddi'n ffurfiol gyda chylch gorchwyl ac aelodaeth yn cynnwys aelodau annibynnol o'r Bwrdd, yn gyfan gwbl neu'n bennaf - ac eithrio Bwrdd Rhaglen Campws 2030 sy'n gorff ar y cyd o'r Bwrdd a'r aelodau Gweithredol.

Roedd gan y Bwrdd a'i bwyllgorau amserlen glir o gyfarfodydd a rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer 2022-23. Cynullwyd cyfarfodydd ychwanegol ar sail eithriadol i fodloni gofynion gwneud penderfyniadau'r Brifysgol yn ôl yr angen.

Cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Bwrdd yn y cnawd yn bennaf yn ystod 2022-23. Roedd yna opsiwn i gyfranogwyr ymuno â chyfarfodydd y Bwrdd o bell hefyd. Cynhaliwyd holl gyfarfodydd Bwrdd Rhaglen Campws 2030 yn y cnawd. Trefnwyd opsiwn i gyfranogwyr ymuno o bell yn rhan olaf y flwyddyn. Parhaodd pob pwyllgor arall i gael ei gynnal o bell yn ystod 2022-23.

Datganiad Rheolaeth Fewnol

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu'r broses ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd y systemau ariannol a'r systemau rheolaeth fewnol (anacademaidd) eraill. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio'n gwneud argymhellion ar benodi archwiliad mewnol ac yn adolygu ei adroddiadau, gan gynnwys adroddiadau dilynol ar weithredu a chwmpas ac effeithiolrwydd ei waith. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n gwneud argymhellion hefyd ar benodi archwiliad allanol ac yn adolygu datganiadau ariannol y Brifysgol cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu'r llythyr rheoli ac yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau cynnydd ar feysydd risg sylweddol a nodwyd gan y Weithrediaeth. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gan eu bod yn effeithio ar fusnes y Brifysgol ac yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'n aelod Annibynnol o Fwrdd y Llywodraethwyr, sy'n aelod profiadol o'r Pwyllgor. Yn ogystal â'r Cadeirydd a dau aelod Annibynnol, roedd y Pwyllgor Archwilio'n cynnwys dau aelod cyfetholedig allanol hefyd drwy gydol 2022-23 nad oeddent yn aelodau o'r Bwrdd ac a oedd felly'n darparu golwg allanol ychwanegol i drafodaethau'r Pwyllgor. Fel mewn blynyddoedd blaenorol a gofynion y Cod Rheolaeth Ariannol, ni chaniatawyd i unrhyw aelodau o'r Pwyllgor Archwilio wasanaethu ar y Pwyllgor Adnoddau. Er bod uwch aelodau'r Weithrediaeth yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn ôl yr angen, nid oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod 2022-23, gyda phresenoldeb archwilwyr mewnol ac allanol y Brifysgol fel y bo'n briodol. Cyfarfu'r Pwyllgor hefyd ag Archwilwyr Mewnol y Brifysgol yn breifat cyn pob cyfarfod, a chyfarfu â'r Archwilwyr Allanol yn ôl yr angen hefyd.

Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd

Comisiynodd y Bwrdd adolygiad cyfnodol allanol o'i effeithiolrwydd tua diwedd 2019-20 i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Brifysgol yn effeithlon, yn effeithiol ac yn addas i'r diben. Cynhaliwyd 'Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd' cynhwysfawr yn 2020-21 gan Halpin Partnership Ltd, ac ystyriodd y Bwrdd adroddiad manwl gydag argymhellion clir a'u derbyn. Drwy gydol 2022-23, gwnaed cynnydd pellach ar weithredu'r argymhellion a oedd yn weddill o'r adolygiad, gyda llawer o'r gwaith yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, gan gynnwys:

- Moderneiddio Erthyglau ac Offeryn Llywodraethu'r Brifysgol - cymeradwyodd y Bwrdd fersiynau terfynol ym mis Hydref 2023 i'w cyflwyno'n ffurfiol i'r Cyfrin Gyngor eu cymeradwyo. Trafododd y Pwyllgor a'r Bwrdd adborth gan Lywodraeth Cymru a'r Cyfrin Gyngor ar y drafftiau cychwynnol a gyflwynwyd i wneud sylwadau arnynt yn ystod 2022-23.
- Cafodd Cynllun Dirprwyo'r Brifysgol (a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2021) ei adolygu ymhellach gan y Pwyllgor a'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022 ac eto ym mis Hydref 2023.
- Adolygwyd rôl Uwch Lywodraethwr Annibynnol (SIG) yn nhrefniadau llywodraethu'r Brifysgol (a gyflwynwyd ym mis Hydref 2021) ym mis Chwefror 2023. (Cyflwynwyd y rôl yn unol ag arfer gorau'r sector AU). Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod rôl SIG yn ychwanegu gwerth at strwythur llywodraethu'r Brifysgol. Er nad oedd y SIG wedi derbyn unrhyw atgyfeiriadau gan aelodau'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â llywodraethu, teimlwyd y byddai'r rôl yn rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa dda pe bai unrhyw bryderon neu gwynion yn cael eu derbyn yn y dyfodol.

- Cafodd y Datganiad o'r Berthynas rhwng y Bwrdd a'r Weithrediaeth (a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2022) ei adolygu gan y Pwyllgor yn ei gyfarfodydd ym mis Ionawr a mis Ebrill 2023. (Cyflwynwyd y Datganiad yn unol ag arfer gorau'r sector AU). Cymeradwyodd y Bwrdd fersiwn ddiwygiedig ym mis Mai 2023 a ddarparodd ddatganiad mwy cadarnhaol a chlir o sut y byddai'r Bwrdd a'r Weithrediaeth yn cydweithio'n effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys gweithgarwch cynefino, hyfforddi a datblygu ar y cyd hefyd rhwng y Bwrdd a'r Weithrediaeth, sesiynau briffio drwy gydol y flwyddyn a diwrnod cwrdd i ffwrdd ym mis Gorffennaf 2023.
- Ailadroddwyd trefniadau i'r Cadeirydd a'r Llywodraethwyr dderbyn arfarniad blynyddol (a gyflwynwyd yn 2022) yn 2023. Cwblhawyd yr holl arfarniadau yn ystod mis Mehefin, mis Gorffennaf a mis Awst 2023. Cyflwynwyd trefniadau ar gyfer cyfweiliadau ymadael â'r Cadeirydd hefyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd a oedd wedi ymddeol/ymddiswyddo yn ystod 2022-23.
- Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Llywodraethwyr yn ei gyfarfod ym mis Mai 2023. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried fersiynau drafft o'r Cynllun yn ei gyfarfodydd ym mis Hydref 2022 a mis Ebrill 2023. Roedd datblygu'r Cynllun yn argymhellid allweddol yn deillio o Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Adolygiad o Lywodraethu mewn Prifysgolion yng Nghymru. Datblygwyd y Cynllun yn dilyn cyhoeddi canllawiau sector AU Cymru yn hydref 2022. Mae'r Cynllun yn nodi'r camau sydd eu hangen i helpu i sicrhau cynrychiolaeth EDI dda ar lefel Llywodraethwyr. Cysylltodd

Cadeirydd y Pwyllgor â rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys cyfarfodydd ag Undeb y Myfyrwyr a Rhwydweithiau Staff arbenigol y Brifysgol i ddatblygu'r Cynllun.

- Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb penodol am aelodaeth, sgiliau, hyfforddiant a datblygiad y Bwrdd, ac roedd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ym mhob cyfarfod. Gofalodd y Pwyllgor fod y rhaglen hyfforddi a datblygu a ddarperir i aelodau'r Bwrdd yn parhau i gael ei harwain gan aelodau.
- Roedd gan y Pwyllgor oruchwyliaeth dros drefniadau ar gyfer recriwtio pum Llywodraethwr Annibynnol newydd yn barod ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2023-24.
- Cyflwynwyd trefniadau rheoli busnes gwell ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor yn 2021-22, a pharhaodd hynny yn 2022-23. Roedd hyn yn cynnwys trefnu rhag-gyfarfodydd i osod yr agenda gyda chadeiryddion pwyllgorau a chyflwyno rhaglenni gwaith ar gyfer y Bwrdd a Phwyllgorau.
- Sefydlodd y Bwrdd Bwyllgor Cynllunio Strategol a Pherfformiad i gynyddu'r ffocws ar nodau strategol a diwyllianol y Brifysgol ar ddechrau 2021-22. Rhoddodd y Pwyllgor gymorth effeithiol i'r Bwrdd wrth ddatblygu Cynllun Strategol newydd y Brifysgol ar gyfer 2022-2030, gyda'r teitl 'Strategaeth 2030'. Drwy gydol 2022-23, ystyriodd y Pwyllgor a'r Bwrdd ddatblygiad strategaethau thematig a galluogi a mesurau llwyddiant cysylltiedig. Cymeradwywyd y rhain i gyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023.
- Mabwysiadodd y Bwrdd yr Adolygiad Llywodraethu o Brifysgolion yng

Nghymru (Adolygiad Camm) a Siarter Llywodraethiant cysylltiedig Cymru yn ffurfiol ym mis Mai 2021. Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau gynydd ar weithredu argymhellion yr Adolygiad ym mhob un o'i gyfarfodydd yn ystod 2022-23.

- Fel rhan o'r gofyniad i adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd yn rheolaidd, cymeradwyodd y Bwrdd gynigion i adolygu strwythur y pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023. Bydd y strwythur diwygiedig yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2024 a'i fwriad yw adlewyrchu gofynion penodol 'Strategaeth 2030' a sicrhau bod aelodau'r Bwrdd mewn sefyllfa dda i ychwanegu gwerth at y broses o ran cyflawni yn erbyn nodau ac uchelgeisiau'r strategaeth. Bydd y strwythur diwygiedig yn ceisio adlewyrchu gofynion y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd hefyd.
- Adeg cynnal Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd yn 2020-21, aseswyd trefniadau llywodraethu'r Brifysgol yn erbyn Fframwaith Aeddfedrydd Llywodraethu. Roedd gan y Fframwaith bedair lefel: (i) Yn methu; (ii) Yn gwella; (iii) Da; ac (iv) O'r radd flaenaf. Bryd hynny, tynnodd yr adolygiad sylw at y ffaith bod trefniadau llywodraethu'r Brifysgol '(ii) Yn gwella'. Ym mis Chwefror 2022, ailaseswyd trefniadau llywodraethu'r Brifysgol fel 'Yn gwella i Dda', gyda thystiolaeth gref i ddangos y gellid gwneud cynnydd i 'Da' yn gyflym.

Siarter Llywodraethiant ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru ac Ymrwymiad i Weithredu

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r Siarter Llywodraethiant a'r Ymrwymiad i Weithredu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020) ac mae wedi gweithredu holl argymhellion y Siarter.

Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau gynydd yn erbyn argymhellion yn ei gyfarfodydd yn ystod 2022-23.

Arweiniodd y Pwyllgor ar waith i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraethwyr. Datblygwyd y Cynllun yn dilyn cyhoeddi canllawiau sector AU Cymru yn hydref 2022. Mae'r Cynllun yn nodi'r camau sydd eu hangen i helpu i sicrhau cynrychiolaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant dda ar lefel Llywodraethwyr. Cysylltodd Cadeirydd y Pwyllgor â rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys cyfarfodydd ag Undeb y Myfyrwyr a Rhwydweithiau Staff arbenigol y Brifysgol i ddatblygu'r Cynllun. Datblygu'r Cynllun oedd yr argymhelliad allweddol olaf o Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Adolygiad o Lywodraethu mewn Prifysgolion yng Nghymru a'r Siarter Llywodraethiant cysylltiedig. Ystyriodd y Pwyllgor fersiynau drafft o'r Cynllun yn ei gyfarfodydd ym mis Hydref 2022 a mis Ebrill 2023. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun yn ei gyfarfod ym mis Mai 2023 i'w weithredu.

Cadarnhad o Gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Addysg Uwch (CUC)

Mae'r Brifysgol yn cadarnhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion Cod Llywodraethu CUC (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020) a'r Cod Taliadau Staff Uwch AU CUC cysylltiedig (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021).

Bwrdd y Llywodraethwyr - aelodaeth

Aelod o'r Bwrdd	Categori	Presenoldeb
John Taylor CBE	Annibynnol (Cadeirydd)	6/6
Dr Christopher Turner	Annibynnol (Is-gadeirydd)	6/6
Nick Capaldi OBE	Annibynnol (Uwch Lywodraethwr Annibynnol)	5/6
Alison Thorne	Annibynnol	5/6
Scott Waddington	Annibynnol	4/6
David Warrender	Annibynnol	3/6
Róisín Connolly	Annibynnol	6/6
Karen Fiagbe	Annibynnol	4/6
Sheila Hendrickson-Brown	Annibynnol (wedi ymddeol Ebrill 2023)	2/4
Paul Matthews	Annibynnol	4/6
Yr Athro Myra Nimmo	Annibynnol (wedi ymddeol Mehefin 2023)	5/5
Yr Athro Kelechi Nnoaham	Annibynnol (wedi ymddiswyddo Ebrill 2023)	1/4
Menai Owen-Jones	Annibynnol	5/6
Christopher Pilgrim	Annibynnol	3/6
Matthew Tossell	Annibynnol	4/6
Yr Athro Cara Aitchison	Llywydd ac Is-Ganghellor	6/6
Dr Malcolm James	Llywodraethwr Staff Academaidd	6/6
Kirsty Palmer	Llywodraethwr cynrychiadol y Bwrdd Academaidd	5/6
Denn Yearwood	Llywodraethwr Staff Gwasanaethau Proffesiynol (wedi ymddeol Tachwedd 2022)	1/1
Charlie Bull	Llywodraethwr Staff Gwasanaethau Proffesiynol (o fis Tachwedd 2022)	5/5
Venky Gonavaram	Myfyriwr	6/6
Natalia-Mia Roach	Myfyriwr	6/6



John Taylor CBE



Dr Christopher Turner



Nick Capaldi OBE



Alison Thorne



Scott Waddington



David Warrender



Róisín Connolly



Karen Fiagbe



Sheila Hendrickson-Brown



Paul Matthews



Yr Athro Myra Nimmo



Yr Athro Kelechi Nnoaham



Menai Owen-Jones



Christopher Pilgrim



Matthew Tossell



Yr Athro Cara Aitchison



Dr Malcolm James



Kirsty Palmer



Denn Yearwood



Charlie Bull



Venky Gonavaram



Natalia-Mia Roach

Pwyllgor Archwilio

Ar ran Bwrdd y Llywodraethwyr, diben y Pwyllgor Archwilio yw goruchwylio effeithiolrwydd trefniadau rheoli a llywodraethu risg y Brifysgol, gan gynnwys chwythu'r chwiban; effeithiolrwydd y trefniadau i hyrwyddo darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; trefniadau archwilio mewnol ac allanol; elfennau archwilio datganiadau ariannol y Brifysgol; a chraffu aer mwyn ystyried a yw trefniadau moesegol a gwerth am arian wedi'u hystyried ym muddsodiadau a phrosesau caffael y Brifysgol.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2022/23 ac ystyriodd yr eitemau busnes allweddol canlynol:

- Yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol a'r Datganiad Blynyddol o'r Farn Archwilio Allanol.
- Y Cynllun/Rhaglen Archwilio Mewnol Blynyddol a'r cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr archwiliad mewnol
- Yr Adroddiad Risg Corfforaethol a Chofrestr Risg y Brifysgol
- Adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban

Mae aelodaeth y Pwyllgor Archwilio fel a ganlyn:

Aelod	Cyfarfodydd a Fynychwyd
Scott Waddington (Cadeirydd a Llywodraethwr Annibynnol)	4/4
Adrian Piper (Is-Gadeirydd ac Aelod Cyfetholedig Allanol o'r Pwyllgor Archwilio)	4/4
Menai Owen-Jones (Llywodraethwr Annibynnol)	3/4
Matthew Tossell (Llywodraethwr Annibynnol)	3/4
Lisa Winstone (Aelod Cyfetholedig Allanol o'r Pwyllgor Archwilio)	3/4

Nid yw Cadeirydd, Staff ac aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio. At hynny, nid yw aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn aelodau o'r Pwyllgor Adnoddau.

Campws 2030 (Bwrdd y Rhaglen)

Mae Rhaglen Bwrdd Campws 2030, a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2022 ar ran Bwrdd y Llywodraethwyr a'r Llywydd a'r Is-ganghellor, yn gorff ar y cyd sy'n sicrhau datblygiad a chyflawniad gweledigaeth y Brifysgol ar gyfer amgylchedd rhagorol ar y campws ar gyfer byw, dysgu, gweithio, gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasu. Mae'r weledigaeth hon yn cyd-fynd â Strategaeth 2030 ac yn ceisio sicrhau bod Met Caerdydd yn brifysgol dewis cyntaf i fyfyrwyr, staff a phartneriaid.

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2022/23 ac ystyriodd yr eitemau busnes allweddol canlynol:

- Datblygu Hunaniaeth a Gweledigaeth y Campws.
- Ystyried dau opsiwn ar gyfer buddsoddi yn stad chwaraeon y Brifysgol.
- Ystyried opsiynau ar gyfer datblygu stad breswyl y Brifysgol.
- Datblygu Uwchgynllun Ystadau a llinell amser gysylltiedig ar gyfer cwblhau.
- Datblygu cynigion ar gaffael safleoedd ychwanegol i ddarparu ar gyfer twf.

Mae aelodaeth Bwrdd Rhaglen Campws 2030 fel a ganlyn:

Aelod	Cyfarfodydd a Fynychwyd
Alison Thorne (Cadeirydd a Llywodraethwr Annibynnol)	5/5
Yr Athro Cara Aitchison (Is-gadeirydd ac Is-Ganghellor)	5/5
Mark Barry (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol)	4/5
Yr Athro Jacqui Boddington (Rhag Is-Ganghellor Ymgysylltu â Myfyrwyr)	4/5
Paul Davies (Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Amgylchedd ac Ystadau)	5/5
Karen Fiagbe (Llywodraethwr Annibynnol)	1/5
Will Fuller (Prif Swyddog Gweithredol Undeb y Myfyrwyr)	5/5
Yr Athro Sheldon Hanton (Rhag Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi)	5/5
Yr Athro Rachael Langford (Dirprwy Is-Ganghellor)	5/5
David Llewellyn (Prif Swyddog (Adnoddau))	5/5
Paul Matthews (Llywodraethwr Annibynnol)	4/5
Ben O'Connell (Cyfarwyddwr Chwaraeon)	4/5
Emma Potts (Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol) - o fis Mawrth 2023	2/2
Matthew Tossell (Llywodraethwr Annibynnol)	5/5
Scott Waddington (Llywodraethwr Annibynnol)	5/5

Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'n gyfrifol i Fwrdd y Llywodraethwyr am oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol i sicrhau bod y Brifysgol yn dilyn arfer gorau. Rôl y Pwyllgor yn rhannol yw sicrhau corff llywodraethu mwy effeithiol, cefnogi recriwtio llywodraethwyr medrus, ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth i helpu i gau bylchau sgiliau, datblygu fframwaith ar gyfer arfarnu llywodraethwyr a gweithio gyda Chadeiryddion Pwyllgorau eraill i asesu perfformiad Pwyllgorau a gwneud argymhellion ar gyfer gwella ymarfer.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2022/23 ac ystyriodd yr eitemau busnes allweddol canlynol:

- Adolygiad o Lywodraethu a Strwythur y Pwyllgor: adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Pherfformiad, a symud ffocws y Pwyllgor Adnoddau tuag at gynaliadwyedd ariannol, ffrydiau refeniw newydd, dulliau digidol, busnesau newydd a chyn-fyfyrrwyr. Cytunodd y Pwyllgor i sefydlu

Pwyllgor Pobl, Iechyd a Lles hefyd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â phobl, iechyd a lles staff a myfyrwyr a materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI).

- Gweithredu argymhellion Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd ac Adolygiad Camm
- Datblygu Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraethwyr (Cynllun EDI)
- Adolygu'r Erthyglau a'r Offeryn Llywodraethu
- Adolygiad o'r Datganiad o'r Berthynas rhwng y Bwrdd a'r Weithrediaeth
- Adolygiad o rôl yr Uwch Lywodraethwr Annibynnol

Mae aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau fel a ganlyn:

Aelod	Cyfarfodydd a Fynychwyd
Nick Capaldi OBE (Cadeirydd a Llywodraethwr Annibynnol)	4/4
Professor Cara Aitchison (Llywydd ac Is-Ganghellor)	3/4
Charlie Bull (Llywodraethwr Staff Gwasanaethau Proffesiynol) (o fis Rhagfyr 2022)	2/3
Sheila Hendrickson-Brown (Llywodraethwr Annibynnol) (tan fis Ebrill 2023)	2/3
Paul Matthews (Llywodraethwr Annibynnol)	4/4
Kirsty Palmer (Llywodraethwr Cynrychiadol y Bwrdd Academaidd)	2/4
David Warrender (Llywodraethwr Annibynnol)	4/4
Denn Yearwood (Llywodraethwr Staff Gwasanaethau Proffesiynol) (tan fis Tachwedd 2022)	1/1

Roedd Cadeirydd y Bwrdd yn bresennol hefyd i gefnogi gwaith y Pwyllgor yn ôl yr angen.

Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cyflawni rôl graffu ac yn cynghori'r Bwrdd ar faterion gan gynnwys penodi, gwerthuso, atal dros dro, diswyddo a phenderfynu ar delerau ac amodau gwasanaeth deiliaid swyddi uwch, a phennu fframwaith ar gyfer tâl ac amodau gwasanaeth yr holl staff. Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod trefniadau talu ar gyfer yr holl swyddi uwch yn cefnogi nodau strategol y Brifysgol ac yn galluogi recriwtio, cymell a chadw uwch staff, gan gydymffurfio â gofynion rheoleiddio ac arfer gorau ar yr un pryd.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2022/23 ac ystyriodd yr eitemau busnes allweddol canlynol:

- Adolygiad Blynnyddol o Dâl a Pherfformiad ar gyfer Staff Lefel 1 a Lefel 2.
- Adroddiad Blynnyddol ar Gyflogau 2021-22 a Datganiad Polisi Cyflog Blynnyddol ar gyfer 2021-22.
- Fframwaith Polisi a Thaliadau Staff Uwch ar gyfer 2022-23.
- Adolygiad o'r Polisi Diswyddo Staff Uwch.
- Cynigion ar newidiadau i Grŵp Gweithredol y Llywydd a'r Is-Ganghellor.
- Adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd, Ethnigrwydd ac Anabledd ar gyfer 2022.
- Adolygiad Cyflog Lefel 3.
- Recriwtio Llywydd ac Is-Ganghellor newydd.

Mae aelodaeth y Pwyllgor Taliadau fel a ganlyn:

Aelod	Cyfarfodydd a Fynychwyd
Dr Chris Turner (Cadeirydd a Llywodraethwr Annibynnol)	4/4
Professor Myra Nimmo (Llywodraethwr Annibynnol) - tan fis Mehefin 2023	3/3
Christopher Pilgrim (Llywodraethwr Annibynnol)	4/4
John Taylor CBE (Cadeirydd y Bwrdd a Llywodraethwr Annibynnol)	4/4
Alison Thorne (Llywodraethwr Annibynnol)	2/4

Pwyllgor Adnoddau

Mae'r Pwyllgor Adnoddau'n cynghori'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud ag adnoddau ariannol, ffisegol, dynol a digidol y sefydliad, gan gynnwys rheolaeth ariannol, cynhyrchu incwm a chynaliadwyedd; Gwasanaethau Pobl, gan gynnwys iechyd a diogelwch a lles; ystadau a'r amgylchedd; ac unrhyw adnoddau eraill o eiddo'r Brifysgol. Mae gan y Pwyllgor rôl hefyd o ran sicrhau gwerth am arian mewn caffael a goruchwyliaeth a monitro anweithredol o reolaeth strategol adnoddau'r Brifysgol i gefnogi ei blaenoriaethau strategol. O ran prosiectau cyfalaf, bydd y Pwyllgor yn ystyried y cynlluniau cyfalaf wrth i'r Brifysgol eu rhoi ar waith yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni.

Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn 2022/23 ac ystyriodd yr eitemau busnes allweddol canlynol:

- Cynigion Blynyddol y Gyllideb, cyn cymeradwyaeth derfynol gan Fwrdd y Llywodraethwyr.
- Diweddariadau rheolaidd ar berfformiad ariannol y Brifysgol.
- Undeb y Myfyrwyr: goruchwyllo Cyfrifon Archwiliedig Blynyddol Undeb y Myfyrwyr, monitro perfformiad ariannol ac adolygu'r Gyllideb Dros Dro ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol.
- Adolygiad Blynyddol o'r Rheoliadau Ariannol (gan gynnwys y Cod Rheolaeth Ariannol) i sicrhau systemau rheolaeth ariannol cadarn yn y Brifysgol.
- Adroddiad monitro blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Caffael: adolygiad rheolaidd o weithgarwch caffael a'r Adroddiad Blynyddol.

Mae aelodaeth y Pwyllgor Adnoddau fel a ganlyn:

Aelod	Cyfarfodydd a Fynychwyd
David Warrender (Cadeirydd a Llywodraethwr Annibynnol)	3/3
Professor Cara Aitchison (Llywydd ac Is-Ganghellor)	2/3
Venky Gonavaram (Myfyriwr)	1/3
Sheila Hendrickson-Brown (Llywodraethwr Annibynnol) (tan fis Ebrill 2023)	1/2
Dr Malcolm James (Llywodraethwr Staff Academaidd)	2/3
Professor Kelechi Nnoaham (Llywodraethwr Annibynnol) (tan fis Ebrill 2023)	1/2
Kirsty Palmer (Llywodraethwr Cynrychiadol y Bwrdd Academaidd)	1/3

Roedd Cadeirydd y Bwrdd a/neu Is-gadeirydd y Bwrdd yn bresennol hefyd i gefnogi gwaith y Pwyllgor.

Pwyllgor Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Mae'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn cynghori'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â chynllunio strategol; monitro a gwerthuso blaenoriaethau strategol a pherfformiad yn erbyn y cynllun strategol; gwerthuso cynnydd yn ymwneud ag agenda gyffredinol twf, amrywiaethu a gwella; a sganio'r gorwel. Mae gan y Pwyllgor rôl hefyd o ran rhoi argymhellion cychwynnol a chyngor i'r Bwrdd ar Uwchgynllunio.

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2022/23 ac ystyriodd yr eitemau busnes allweddol canlynol:

- Datblygu Strategaethau Thematig a Galluogi i gefnogi Strategaeth 2030. Roedd gan y Pwyllgor rôl sylweddol o ran goruchwyllo a datblygu Cynllun Strategol newydd y Brifysgol ac, yn 2022/23 yn benodol, gwnaeth gyfraniad allweddol at lywio'r strategaethau thematig a galluogi.

- Datblygu Mesurau Llwyddiant i gefnogi Strategaeth 2030. Datblygwyd y Mesurau Llwyddiant yn dilyn ymgynghori ag amryw randdeiliaid a meincnodau.
- Monitro gweithgarwch Recriwtio Myfyrwyr.
- Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol ac adroddiadau eraill sy'n ymdrin ag ansawdd a pherfformiad academaidd. Un o rolau allweddol y Pwyllgor yw eu cyfrifoldeb dirprwyedig dros ystyriaeth lefel Llywodraethwr o sicrwydd academaidd. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhad o chwe datganiad ar ansawdd academaidd ar ran Bwrdd y Llywodraethwyr a gafodd eu cynnwys yn y cyflwyniad Adolygiad Sicrwydd Blynyddol.

Mae aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Pherfformiad fel a ganlyn:

Aelod	Cyfarfodydd a Fynychwyd
John Taylor CBE (Cadeirydd a Llywodraethwr Annibynnol)	5/5
Professor Cara Aitchison (Llywydd ac Is-ganghellor)	4/5
Nick Capaldi OBE (Llywodraethwr Annibynnol)	4/5
Roísín Connolly (Llywodraethwr Annibynnol)	3/5
Venky Gonavaram (Myfyriwr)	4/5
Paul Matthews (Llywodraethwr Annibynnol)	2/5
Professor Myra Nimmo (Llywodraethwr Annibynnol) (tan fis Mehefin 2023)	4/5
Dr Christopher Turner (Llywodraethwr Annibynnol)	4/5

Bwrdd Academaidd


Mae'r Bwrdd Academaidd, a sefydlwyd o dan Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol, yn Bwyllgor o Fwrdd y Llywodraethwyr ac mae'n gyfrifol am gynghori'r Is-Ganghellor a Bwrdd y Llywodraethwyr. Y Bwrdd Academaidd yw awdurdod academaidd y Brifysgol a'i chorff gwneud penderfyniadau uwch ar gyfer adnoddau sy'n cefnogi'r Brifysgol ar lefel strategol. Cyfarfu'r Bwrdd Academaidd wyth gwaith yn 2022/23.

Mae aelodaeth y Bwrdd Academaidd fel a ganlyn:

Aelod	Cyfarfodydd a Fynychwyd
Yr Athro Cara Aitchison (Llywydd ac Is-ganghellor) (Cadeirydd)	4/8
Yr Athro Rachael Langford (Dirprwy Is-Ganghellor) (Is-gadeirydd)	8/8
Yr Athro Jacqui Boddington (Rhag Is-ganghellor Ymgysylltu â Myfyrwyr)	8/8
Yr Athro Sheldon Hanton (Rhag Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi)	6/8
David Llewellyn (Prif Swyddog Adnoddau)	6/8
Emma Potts (Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol) (o fis Mawrth)	3/3
Yr Athro David Brooksbank (Deon Ysgol Reoli Caerdydd)	7/8
Dr Bethan Gordon (Deon Dros Dro Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd)	7/8
Yr Athro Julia Longville (Deon Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd)	6/8
Yr Athro Jon Platts (Deon Ysgol Dechnolegau Caerdydd)	7/8
Yr Athro Katie Thirlaway (Deon Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd)	7/8
Mark Barry (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol)	8/8
Sukh Chonk (Cyfarwyddwr Marchnata a Chysylltiadau Allanol Dros Dro) (tan fis Rhagfyr 2022)	3/3
Ashley Flaherty (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl)	8/8
Yr Athro Steve Gill (Cyfarwyddwr Ymchwil)	7/8
Dr Joanna Hendy (Cyfarwyddwr Gwella Dysgu)	6/8
Ben O'Connell (Cyfarwyddwr Chwaraeon)	7/8
Kirsty Palmer (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr)	7/8
Ben Rogers (Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Gofrestrfa)	7/8
Matthew Taylor (Cyfarwyddwr Arloesi)	8/8
Anna Dukes (Pennaeth Ymgysylltu Byd-eang Dros Dro)	6/8
Mairwen Harris (Pennaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad)	8/8
Mark Hughes (Pennaeth Gwasanaethau Llyfrgell)	6/8
Meryl Hopwood (Cynrychiolydd Staff Academaidd Etholedig)	8/8
Mark Lester (Aelod Staff Gwasanaethau Proffesiynol Etholedig)	8/8
Dr Ram Patra (Cynrychiolydd Staff Academaidd Etholedig)	7/8
Yr Athro Andrew Walters (Aelod Staff Athrawon Etholedig)	4/8
Venky Gonavaram (Llywydd Undeb y Myfyrwyr)	7/8
Natalia-Mia Roach (Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr)	7/8

Adroddodd sawl Pwyllgor a Gweithgor i'r Bwrdd Academaidd (fel y rhiant gorff) yn ystod 2022/23. Dynodwyd y rhain naill ai'n Bwyllgorau Academaidd neu Reoli ac fe'u nodir yn y siart strwythur isod.

Siart Strwythur Byrddau a Phwyllgorau



Grŵp Gweithredol yr Is-Ganghellor

Grŵp Gweithredol yr Is-Ganghellor (VCEG) yw uwch dîm arwain y Brifysgol ac mae'n cynorthwyo'r Is-Ganghellor i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer yr holl bortffolios Gweithredol. Mae aelodau VCEG yn cynnwys y Llywydd a'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymgysylltu â Myfyrwyr), y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi), Ysgrifennydd y Brifysgol, a'r Prif Swyddog (Adnoddau).

Mae VCEG yn cyfarfod o leiaf bob pythefnos ac yn canolbwyntio ar fonitro perfformiad ariannol, gan gynnwys pennu cyllidebau, ochr yn ochr â monitro a goruchwyllo strategaeth, perfformiad gweithredol a datblygiad polisi.



Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau

Cyflwyniad

Pwyllgor Taliadau sy'n gyfrifol am benderfynu ar strategaeth wobrwyo'r Brifysgol ac am bennu'r trefniadau talu a thelerau ac amodau'r Is-Ganghellor ac uwch aelodau staff eraill.

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cynnwys aelodau lleeg annibynnol o Fwrdd y Llywodraethwyr sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Mae'r Is-Ganghellor a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau, ond nid yw'r Is-Ganghellor yn bresennol ac nid yw'n cyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau ar ei dâl ei hun. Ar ben hynny, nid oes unrhyw aelod o staff yn bresennol i drafod ei dâl ei hun.

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n ystyried fforddiadwyedd a gwybodaeth gymharol am dâl, buddion ac amodau cyflogaeth y sector Addysg Uwch, ac yn ehangach lle bo hynny'n briodol.

Wrth benderfynu ar y tâl a ddyfernir, mae'r Pwyllgor Taliadau'n ystyried dull y Brifysgol o gydnabod perfformiad ar gyfer pob rôl o ran cwmplas ac mae'n cyfeirio at wybodaeth feincnodi'r sector a ddarperir gan Arolwg Cyflogau Uwch y Gymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau (UCEA).

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i gylch gorchwyl a gofynion Cod Taliadau Staff Uwch Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC), gan ganolbwyntio ar y tair elfen allweddol: a) lefel tâl deg a phriodol y gellir ei chyfiawnhau; b) tegwch gweithdrefnol ac c) tryloywder ac atebolrwydd.

Yn unol â'i gylch gorchwyl a Chod Taliadau Staff Uwch Addysg Uwch CUC, er mwyn sicrhau proses deg a thryloyw, adolygir tâl yr Is-Ganghellor a'r uwch dîm arwain yn flynyddol gan ddefnyddio proses deg sy'n adlewyrchu perfformiad pob unigolyn yng nghydestun perfformiad y Brifysgol.

Dull Talu

Manylir ar ddull y Brifysgol o dalu deiliaid swyddi uwch mewn [Fframwaith Polisi Taliadau Staff Uwch](#). Mae'r Fframwaith yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Taliadau ac fe'i hadolygwyd ym mis Hydref 2022.

Taliadau 2022-2023

Bob blwyddyn, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl yn paratoi papur ar gyfer y Pwyllgor Taliadau sy'n meincnodi cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor a deiliaid swyddi uwch eraill yn erbyn cyflog blynyddol sefydliadau o faint a chwmpas cymharol. Daw'r data hwn o Arolwg Taliadau Staff Uwch blynyddol y Gymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau (UCEA), ac Arolwg Cyflog blynyddol yr Is-Ganghellor CUC.

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n ystyried nifer o ffactorau wrth ystyried cynigion gwobrwyo perfformiad. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Perfformiad i gefnogi amcanion strategol y Brifysgol ym meysydd addysgu; ymchwil; arloesi ac ymgysylltu; arwain a rheoli; arwain staff; partneriaethau a chysylltiadau allanol yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol; mentrau a phrosiectau mawr
- Maint a chymhlethdod y Brifysgol
- Natur y marchnadoedd AU a materion recriwtio a chadw
- Amcanion y Brifysgol mewn perthynas ag amrywiaeth y gweithlu; a
- Data meincnodi cyflogau

Cefnogir swyddi uwch gan fethodoleg gwerthuso swyddi Hay, a chafodd y swyddi eu hadolygu ddiwethaf yn 2022. Methodoleg gwerthuso swyddi Hay yw'r cynllun gwerthuso swyddi a ddefnyddir fwyaf yn y byd.

Yn ystod y flwyddyn 2022-23, dyfarnodd y Pwyllgor Taliadau gynnydd cyflog costau byw o 3% i'r Is-Ganghellor a'r uwch staff a chynnydd cyflog costau byw pellach o 2% ym mis Chwefror 2023. Roedd hyn yn unol â dyfarniad cyflog y sector AU y cytunwyd arno yn genedlaethol i staff sydd ar golofn gyflog y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol (NFA) ac a gwmpesir gan strwythur graddio'r Brifysgol sy'n cynnwys 8 gradd. Cefnogir y graddau hyn gan fethodoleg gwerthuso swyddi Dadansoddi Rôl Addysg Uwch (HERA).

Gwnaed taliad untro 'Costau Byw' o £750 i holl weithwyr y Brifysgol yn 2022-23 i helpu gyda chost uchel tanwydd a'r sefyllfa chwyddiant uchel a oedd yn cael ei hwynebu yn y DU. Dyfarnodd y Pwyllgor Taliadau y taliad hwn i'r Is-Ganghellor ac uwch staff hefyd.

Taliadau'r Is-Ganghellor

Y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar becyn tâl yr Is-Ganghellor, gan ystyried ehangder y cyfrifoldebau arweinyddiaeth ac ariannol a'r ddarpariaeth yn erbyn amcanion strategol y Brifysgol.

Wrth gyflawni gweledigaeth y Brifysgol fel prifysgol flaengar, gan weithio gyda phwrpas, effaith a thosturi i wneud economïau'n fwy ffyniannus, cymdeithasau'n decach, diwylliannau'n gyfoethocach, yr amgylchedd yn wyrddach a chymunedau'n iachach, mae'n hanfodol bod y brifysgol yn cynnig pecyn tâl cystadleuol ar gyfer rôl yr Is-Ganghellor. Mae hyn yn cydnabod natur amrywiol a chymhleth y sefydliad hefyd, gyda thros 25,000 o fyfyrwyr wedi ymrestru, dros 1,500 o staff cyflogedig ac incwm o dros £150m.

Wrth ystyried pecyn tâl yr Is-Ganghellor, mae'r Pwyllgor Taliadau'n ystyried y cyd-destun sefydliadol, ochr yn ochr â pherfformiad yr Is-Ganghellor, symudiad cyflog cyffredinol ar gyfer holl staff y Brifysgol, cyfraddau cadw ac unrhyw ystyriaethau perthnasol yn y farchnad, ac mae'n cael ei lywio gan wybodaeth am feincnodi cyflog gyda phrifysgolion cymharol.

Asesir perfformiad yr Is-Ganghellor gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr ar ôl cael adborth gan holl aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae'n seiliedig ar arweinyddiaeth, cyflawni amcanion strategol allweddol, mesur yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt, perfformiad cyffredinol y Brifysgol a'r cyd-destun allanol y mae'r brifysgol yn gweithredu ynddo. Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Taliadau'n derbyn adroddiad gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr ar Adolygiad Perfformiad a Datblygiad yr Is-Ganghellor ac amcanion cytunedig ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Adolygir cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor yn unol â dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer y sector Addysg Uwch. Pan gaiff ei gefnogi gan dystiolaeth, gall y Pwyllgor Taliadau, yn ôl ei ddisgresiwn, gytuno ar gynnydd cyfunol i gyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor. Byddai unrhyw gynnydd o'r fath yn cael ei adrodd drwy'r cyfrifon ariannol yn y flwyddyn ganlynol.

Nid yw'r Brifysgol yn gweithredu cynllun bonws sy'n gysylltiedig â perfformiad.

Mae cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor yn 2022-23 6.4 gwaith yn fwy na chyflog canolrifol staff, o gymharu â 6.5 gwaith yn fwy yn 2021-22. Cyflog canolrifol staff yn 2022-23 yw £41,931.

Mae cyfanswm tâl yr Is-Ganghellor 7.5 gwaith yn fwy na chyflog canolrifol staff, sydd yr un fath ag yn 2021-22. Cyfanswm tâl canolrifol staff yn 2022-23 yw £42,647.

Mae'r Is-Ganghellor o dan drefniadau optio allan o fewn Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (yr USS).

Taliadau Staff Uwch

Asesir perfformiad uwch aelodau staff gan yr Is-Ganghellor, ar ôl cael adborth gan y Cadeirydd ac aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae'n seiliedig ar arweinyddiaeth, cyflawni amcanion strategol allweddol, mesur yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt, perfformiad cyffredinol y Brifysgol a'r cyd-destun allanol y mae'r brifysgol yn gweithredu ynddo. Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Taliadau'n derbyn adroddiad gan yr Is-Ganghellor ar Adolygiadau Perfformiad a Datblygiad Staff Uwch ac amcanion cytunedig ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae'r cyflog sylfaenol ar gyfer staff uwch yn cael ei adolygu yn unol â dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer y sector Addysg Uwch. Pan gaiff ei gefnogi gan dystiolaeth, gall y Pwyllgor Taliadau, yn ôl ei ddisgresiwn, gytuno ar gynnydd cyfunol i gyflog sylfaenol Staff Uwch.

Yn 2022-23, ystyriodd y Pwyllgor Taliadau gyflog pedwar aelod o staff uwch; Y Dirprwy Is-Ganghellor; y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi); y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymgysylltu â Myfyrwyr); a'r Prif Swyddog Adnoddau. Dyfarnwyd codiad cyflog sylfaenol o 3% i bob un. Yn ogystal, derbyniodd rhai uwch aelodau o staff ddyfarniad anghyfunol o 2% i gydnabod cyflwyno mentrau strategaeth allweddol.

Cyhoeddir nifer yr aelodau o staff sy'n derbyn tâl o dros £100k y flwyddyn yn y datganiadau ariannol (nodyn 7), wedi'u rhannu'n fandiau cyflog o £5k. Yn 2022-23, roedd 12 aelod o staff â chyflog sylfaenol dros £100k y flwyddyn, o gymharu â naw yn 2021-22.

Taliadau ar gyfer grwpiau staff eraill

Mae'r rhan fwyaf o staff eraill ar golofn gyflog y Cytundeb Fframwaith cenedlaethol (NFA) ac yn cael eu cwmpasu gan Strwythur Graddio'r Brifysgol sy'n cynnwys naw gradd. Cefnogir y graddau hyn gan fethodoleg gwerthuso rolau Dadansoddi Rôl Addysg Uwch (HERA).

Mae staff ar raddfeydd cyflog NFA yn cael codiadau cyflog yn flynyddol yn seiliedig ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cynyddol, nes eu bod yn cyrraedd brig amrediad y radd. Maent yn derbyn unrhyw ddyfarniadau cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol hefyd.

Mae'r Brifysgol yn cynnig casgliad cynhwysfawr o fuddion ariannol ac anariannol yn y gweithle.

Cyflogwr Cyflog Byw

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig ac, o ganlyniad, mae pob aelod o staff yn derbyn cyfradd sylfaenol y Cyflog Byw o leiaf.

Polisi Ymadael

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cytuno ar bob cytundeb setliad, gan gynnwys diswyddo gwirfoddol, ar gyfer staff uwch. Mae unrhyw ddiswyddiadau sy'n gysylltiedig â staff academiaidd ac uwch yn destun prosesau diswyddo'r Brifysgol.

Rhoddir manylion pecyn gwobrwyo'r Is-Ganghellor isod.

	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022
Enillion yr Is-Ganghellor	£	£
Cyflog	268,476	257,500
Taliadau yn lle cyfraniadau pensiwn	49,719	47,346
	318,195	304,846

Adolygiad Gweithredu ac Ariannol

Cwmpas y Datganiadau Ariannol

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 ac yn cynrychioli degfed Adroddiad Blynyddol ar hugain y Brifysgol ers ei hymgorffori ym mis Ebrill 1992. Mae'r datganiadau ariannol yn cyfuno prif weithgarwch y Brifysgol â'i his-gwmnïau, ac fe'u paratowyd yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019 ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102.

Prif Weithgareddau

Prif weithgarwch y Brifysgol yw darparu addysg uwch o gampysau yng Nghaerdydd a thrwy weithgareddau cydweithredol mewn rhannau eraill o'r DU a thramor. Mae portffolio'r Brifysgol yn ymestyn ar draws gweithgareddau israddedig, ôl-raddedig ac ymchwil ac fe'i hategir gan hyfforddiant, ymgynghoriaeth a chyfleoedd masnachol eraill a ddarperir i sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn darparu gwasanaethau cynadledda a phreswyl hefyd, ynghyd â chyfleusterau chwaraeon ac arlwy, i fyfyrwyr a defnyddwyr allanol. Mae llawer o'r gweithgareddau masnachol hyn yn cael eu cynnal drwy is-gwmni Cardiff Met Company Ltd, sy'n rhoi unrhyw elw trethadwy yn ôl i'r Brifysgol drwy'r cynllun Cymorth Rhodd.

Strategaeth Ariannol a Buddsoddi

Cymeradwyodd y Brifysgol ei Strategaeth Ariannol wedi'i diwygio a'i diweddarau yn ystod mis Gorffennaf 2023. Amcanion allweddol y Strategaeth hon yw cynyddu ac amrywiaethu incwm; sicrhau sefydlogrwydd ariannol; a hyrwyddo cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae'r Strategaeth yn cynnwys amcanion perfformiad heriol i gefnogi dyheadau'r Brifysgol ar gyfer y dyfodol. Mae'r Strategaeth Gyllid yn un o bedair strategaeth alluogi sydd, ynghyd â'r Strategaeth Pobl, Ystadau a Digidol yn cefnogi Strategaeth 2030 y Brifysgol.

Canlyniadau ar gyfer y Flwyddyn

Cyflawnodd y Brifysgol berfformiad ariannol cryf iawn yn ystod y flwyddyn, gydag incwm y grŵp yn cynyddu £16m i £153.2m (2022: £137.2m). Mae'r canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn dangos bod y grŵp wedi cyflawni gwarged cyfrifyddu o £5.6m (2022: diffyg o £0.7m) a chynhyrchodd warged arian parod gweithredol (fel y diffinnir isod) o £16m (2022: £19.5m).

Yn y cyfnod ers cyflwyno FRS102 yn ystod 2015-2016, bu gwahaniaeth amlwg rhwng cryfder cynhyrchu arian gweithredol y Brifysgol a'i chanlyniad cyfrifyddu. Mae'r ystumiad hwn o'r canlyniadau ariannol wedi deillio o'r angen i gyfrif am daliadau diffyg pensiwn nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â dau o dri chynllun pensiwn staff y Brifysgol, sef, Cynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (CVGPS), a Chynllun Pensiwn y Brifysgol (USS). Cyfanswm effaith gyfunol y taliadau diffyg pensiwn a ddeilliodd o'r ddau gynllun hyn oedd £14.8m yn 2022. Mae'r newid mewn amodau economaidd wedi golygu bod y taliadau diffyg pensiwn ar gyfer y flwyddyn bresennol wedi gostwng i £4.4m yn 2023. Ysgogwyd y newid hwn yn bennaf gan gynnydd yn y gyfradd ddisgownt (y swm mae rhwymedigaethau yn y dyfodol yn cael eu disgowntio). Arweiniodd lefelau uchel o chwyddiant yn ystod y flwyddyn at gyfraddau llog uwch a arweiniodd, yn ei dro, at gyfradd ddisgownt sylweddol uwch.

Mae prif ffrwd incwm y grŵp yn deillio o ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig o'r DU a'r UE, a ddaeth i gyfanswm o £70.2m (2022: £67.1m) ac sy'n cynrychioli 46% (2022: 49%) o'r cyfanswm incwm. Pan gynhwysir ffioedd rhyngwladol a chontractau addysgol, mae hyn yn codi i £115.7m (2022: £100.6m) a 76% (2022: 73%) o'r incwm. Parhaodd ffioedd dysgu israddedig llawn amser ar gyfer myfyrwyr o'r DU wedi'u capio ar £9k yn ystod y flwyddyn, gan arwain at ddim cynnydd chwyddiant i werth y ffi.

Buddsoddodd y grŵp £18.2m (2022: £10.7m) yn ei seilwaith yn ystod y flwyddyn. O hyn, buddsoddwyd £9.9m yn y stad, gan gynnwys buddsoddiadau adnewyddu a gwella mewn cyfleusterau academiaidd,

preswyl, gwasanaeth proffesiynol a chwaraeon. Buddsoddwyd gwariant gwerth cyfanswm o £8.3m mewn offer, gosodiadau a ffitiadau, seilwaith TG a systemau digidol corfforaethol hefyd.


Cynyddodd asedau net £51.9m i £188.3m (2022: £136.4m). Roedd y cynnydd mewn asedau net

o ganlyniad i ddau ffactor, sef gostyngiad yn narpariaethau pensiwn y brifysgol o £42.5m i £6.2m (2022: £48.7m); a chynnydd net yn y sylfaen asedau o £9.4m yn sgil y perfformiad ariannol cryf yn ystod y flwyddyn.

Crynodeb o'r Canlyniadau Cyfunol


	2022/2023 £000	2021/2022 £000
Incwm	153,234	137,176
Gwariant	147,638	137,885
Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn	5,596	(709)
Yn cael ei ychwanegu'n ôl		
Dibrisiant	5,979	4,822
Taliadau Darpariaeth Pensiwn	4,171	14,837
Symudiad Croniad Gwyliau Blynyddol	299	589
Gwarged Arian Parod Gweithredol	16,045	19,539

Dadansoddiad Incwm 2022-23



- Ffioedd dysgu a chontractau addysg
- Preswylfeydd, arlwy a chynadleddau
- Grantiau a chontractau ymchwil
- Incwm arall
- Incwm TNE
- Grantiau cyrff cyllido

Dadansoddiad Gwariant 2022-23



- Adrannau Academiaidd
- Grantiau a Chontractau Ymchwil
- Llety, Arlwy a Chynadleddau
- Treuliau Eraill
- Gwasanaethau Academiaidd
- Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Canolog
- Safleoedd

Hylifedd ac Arian Parod

Cyfanswm arian parod ac adnoddau buddsoddi byrdymor y grŵp ar ddiwedd y flwyddyn oedd £55.2m (2022: £62.4m). Ariannwyd buddsoddiadau yn y stad a'r seilwaith yn ystod y flwyddyn yn llwyr gan arian parod a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu. Daeth cyfanswm ad-daliadau benthychiadau yn ystod y flwyddyn i £1.8m, gan leihau dyled hirdymor y grŵp o £21.0m i £19.2m. Arweiniodd hyn at gymhareb gerio well, gyda dyled hirdymor fel % o'r incwm yn gostwng i 12.5% (2022: 15.3%). Mae'r sylfaen ariannol gref yn darparu sylfaen weithredu gadarn a sefydlog.

Y Rhagolwg Ariannol

Yn ystod 2022-2023, cododd y Brifysgol ffi ddysgu flynyddol o £9,000 ar fyfyrwyr israddedig cartref llawn amser o gymharu â'r ffi o £9,250 a oedd yn cael ei chodi mewn sefydliadau yn Lloegr. Mae'r ffi ddysgu israddedig cartref llawn amser yn parhau i fod wedi'i chapio ar gyfer 2023-2024 ar £9,000 yng Nghymru am y ddeuddegfed flwyddyn yn olynol ac ar £9,250 yn Lloegr.

Mae gwerth gwirioneddol y ffi israddedig llawn amser yn parhau i erydu, proses sydd wedi cyflymu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd lefelau uchel o chwyddiant ac y disgwyliar iddi barhau i'r dyfodol, gan fod Banc Lloegr yn rhagweld y bydd chwyddiant yn aros yn uwch am gyfnod hirach. Mae chwyddiant uchel wedi cael effaith niweidiol ar sylfaen gostau (cyflog ac nad yw'n ymwneud â chyflog) y Brifysgol ac ar safonau byw staff a myfyrwyr; ac mae'n parhau i roi pwysau ar gostau cyflog a chysylltiadau diwydiannol ar draws y sector. Mae'r diffyg mynegeio parhaus ar un o brif ffrydiau incwm y Brifysgol yn peri heriau ariannol i'r Brifysgol a'r sector AU yn gyffredinol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arwydd y bydd unrhyw fynegeio yn cael ei gymhwyso i'r ffi israddedig llawn amser, nac y bydd y ffi sy'n cael ei chodi gan sefydliadau yng Nghymru yn cael ei halinio â'r ffi sy'n cael ei chodi gan sefydliadau yn Lloegr. Yn yr un modd, ar ôl cyfnod hir o gyfraddau llog is nag erioed, mae'r duedd ddiweddar ar i fyny mewn cyfraddau llog wedi cynyddu cost benthyca

yn sylweddol. Os bydd y Brifysgol yn cynyddu ei benthychiadau yn y dyfodol, rhagwelir y bydd y gyfradd llog yn sylweddol uwch na'r hyn oedd yn berthnasol yn y gorffennol diweddar.

Er mwyn gweithredu'n gynaliadwy o dan yr amgylchiadau hyn, mae'r Brifysgol wedi diweddarau ei Strategaeth ar gyfer y cyfnod 2022 tan 2030, gan ganolbwyntio'n barhaus ar dwf ac amrywiaethu ei sylfaen incwm drwy ddatblygu rhaglenni academiaidd newydd a thrwy fuddsoddiad pellach mewn ymchwil a gweithgarwch arloesi, ac i bob gweithgarwch o'r fath gael ei gefnogi gan raglen fuddsoddi mewn stad a seilwaith newydd ac wedi'i adnewyddu.

Statws Elusennol

Daeth y Brifysgol yn Elusen Gofrestredig (Rhif 1140762) ar 10 Mawrth 2011.

Aelodaeth Bwrdd y Llywodraethwyr

Amlinellir aelodaeth y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn 1 Awst 2022 tan 31 Gorffennaf 2023 ar dudalen 20 yr adroddiad hwn.

Dros y cyfnod adrodd, hawliodd llywodraethwyr £4,262 mewn treuliau. Roedd hyn yn cynnwys eitemau megis milltiroedd, trafndiaeth gyhoeddus a ffioedd parcio i alluogi teithio i gyfarfodydd a gweithgareddau eraill ar ran y Brifysgol. Ni wneir unrhyw daliadau eraill i ymddiriedolwyr. Mae gwybodaeth am drafodion trydydd parti cysylltiedig yn nodyn 7.

Archwilwyr annibynnol

Yr archwilwyr annibynnol allanol ar gyfer y flwyddyn oedd PricewaterhouseCoopers LLP. Yr archwilwyr mewnol ar gyfer y flwyddyn oedd TIAA Ltd.

Cyfle Cyfartal

Mae'r Brifysgol yn gweithio i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb ac mae wedi ymrwymo

i integreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn rhagweithiol yn ei holl weithgareddau. Mae Cynllun Cydraddoldeb

Strategol wedi'i gytuno a'i weithredu. Mae'r Brifysgol yn weithgar wrth ehangu mynediad at addysg ac wrth ddarparu agwedd gynhwysol o ddysgu, addysgu ac ymchwil.

Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

Mae iechyd, diogelwch a lles staff a myfyrwyr yn hanfodol i lwyddiant y Brifysgol. Mae Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn ystyried pob agwedd berthnasol ar iechyd, diogelwch a lles. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd o archwiliadau cyfnodol o drefniadau rheoli iechyd a diogelwch ysgolion/unedau a mentrau a/neu faterion sy'n deillio o gyfarfodydd iechyd a diogelwch ysgolion/unedau. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn lledaenu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth a chanllawiau ar arfer da ac yn monitro lefelau damweiniau a salwch staff. Cyflwynir Cofnodion y Pwyllgor i'r Bwrdd Academiaidd ac mae adroddiadau iechyd a diogelwch i'w gweld ym Mhwyllgor Archwilio'r Brifysgol hefyd. Darperir Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynnyddol i Fwrdd y Llywodraethwyr drwy'r Pwyllgor Adnoddau, i'w alluogi i fodloni ei rwymedigaeth statudol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Datganiad ynghylch Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi ymrwymo i wella ein harferion busnes i frwydro yn erbyn caethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi neu yn unrhyw ran o'n busnes i sicrhau nad ydym yn rhan o unrhyw droseddau hawliau dynol. Mae polisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn dangos ei hymrwymiad i weithredu'n foesebol a chydag uniondeb yn ei holl weithgareddau busnes, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. Mae Polisi 'Cadwyni Cyflenwi Moesebol' wedi bod yn rhan o'r swyddogaeth gaffael ers 2011. Caiff y Polisi hwn ei

adolygu a'i ddiweddarau yn 2022 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu arfer da perthnasol.

Mae polisiau a gweithdrefnau gweithle'r Brifysgol wedi cael eu hadolygu a'u diwygio i sicrhau eu bod yn adlewyrchu bwriad Cod Ymarfer 'Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi' Llywodraeth Cymru. Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i weithredu'n foesebol a chydag uniondeb yn ei holl gysylltiadau busnes drwy sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn digwydd yn ei gweithluoedd neu weithgareddau busnes yn y DU ac yn rhyngwladol.

Yn ystod y flwyddyn a drafodir yn yr adroddiad hwn, ymrwymodd y Brifysgol i sicrhau bod graddfeydd cyflog yr holl staff ar lefel y Cyflog Byw Gwirioneddol neu'n uwch. Cafodd y Brifysgol ei hachredu fel cyflogwr Cyflog Byw gan y Living Wage Foundation ym mis Tachwedd 2019 ac mae wedi talu'r gyfradd Cyflog Byw o leiaf i'r holl staff ers mis Awst 2018.

Datganiad ynghylch y Ddeddf Cyllid Troseddol

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd a'i his-gwmnïau wedi ymrwymo i sicrhau nad yw ei gweithwyr, ei hasiantau a phobl gysylltiedig eraill sy'n gweithredu ar ei rhan yn hwyluso efadu trethi gan barti arall. Mae'r Brifysgol yn adolygu ei risgiau a'i phrosesau a'i gweithdrefnau cysylltiedig yn rheolaidd i sicrhau bod pob cam yn cael ei gymryd i atal efadu trethi. Mae'r Brifysgol yn cynnwys risg efadu trethi ar ei Chofrestr Risg. Mae'r risg yn cael ei hadolygu a'i diweddarau deirgwaith y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys adolygu rheolaethau i liniaru risgiau. Mae'r Brifysgol yn adolygu ei pholisiau a'i chanllawiau mewn perthynas â'r Ddeddf Cyllid Troseddol yn rheolaidd, yn unol â pholisiau tebyg (Gwrth-lwgrwobrwyo, Gwrth-dwyll a Llygrediaeth, polisiau Gwrth-wyngalchu Arian a Rheoliadau Ariannol).

Datganiad o'r Effaith ar yr Hinsawdd

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi ymrwymo i leihau ei heffaith ar yr hinsawdd a'r amgylchedd.

Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o leihau ein heffaith gyda'n System Rheoli Amgylcheddol (EMS) (ISO 14001) sy'n cwmpasu holl weithgareddau'r Brifysgol, o ynni a chyfleustodau i reoli gwastraff ac ailgylchu. Yn fwyaf arwyddocaol, mae'r gwaith yn cynnwys ymwreiddio addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y cwricwlwm, mewn gweithgareddau ymchwil a menter a thrwy newid ymddygiad ac ymwybyddiaeth.

Un o'r cyfleoedd allweddol i leihau ein heffaith yw drwy reoli'r defnydd effeithlon o ynni ar draws y stad. Mae Rheoli Ynni o fewn tîm yr Amgylchedd ac Ystadau yn golygu darparu amgylcheddau gweithio, addysgu a dysgu cyfforddus ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr, gan reoli'r ynni a ddefnyddir yn ofalus ar yr un pryd. Mae rhwydwaith o is-fesyryddion trydan, nwy a dŵr yn ein galluogi i ddeall y defnydd o ynni mewn adeiladau unigol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i adrodd ar ei chynnydd tuag at gyrraedd y targedau a nodir yn y Polisi a'r Strategaeth Gynaliadwyedd. Mae'r Strategaeth Gynaliadwyedd yn darparu fframwaith i gyd-fynd â'n huchelgeisiau a'n camau gweithredu mewn perthynas â chynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy a gefnogir gan y Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd.

Datganiad Budd Cyhoeddus yr Effaith ar yr Hinsawdd

Parhaodd y Brifysgol â'i ffocws ar ymgysylltu fel mecanwaith newid allweddol, gan ddefnyddio ei Diwrnodau Cymunedol fel darn canolog i ddod â chymuned y campws ynghyd â chymdogion a chymunedau lleol. Mae'r 'Diwrnodau Cymunedol' yn hyrwyddo partneriaethau cynaliadwyedd, ac yn cynnwys llawer o elusennau a busnesau bach, marchnad ffermwyr leol, masnachwyr entrepreneur sy'n fyfyrwyr, stondinau gwybodaeth am Reoli Gwastraff Cyngor Caerdydd a'r Brifysgol.

- Cynhelir Caffis Atgyweirio ar ddau gampws y Brifysgol bob mis, gan roi cyfle i staff, myfyrwyr a'r gymuned leol gael trwsio eitemau sydd wedi torri am ddim. Mae'r caffis yn cynnig cyngor a chyfleoedd

gwirfoddoli hefyd, ynghyd â gwasanaethu beiciau a marcio diogelwch gan elusen leol a Heddlu De Cymru.

- Mae'r Brifysgol yn falch iawn o gael ei dynodi'n Ganolfan Casglu Sbwriel ar gyfer yr ardal leol gyda Cadwch Gymru'n Daclus. Mae hyn yn gyfle i unigolion a grwpiau fenthyg offer casglu sbwriel ar gyfer digwyddiadau yn y ddinas. Mae Met Caerdydd yn cynnal ei digwyddiadau Casglu Sbwriel wythnosol ei hun hefyd.
- Mae'r Brifysgol yn un o noddwr allweddol rhwydwaith beicio cyhoeddus y ddinas, gyda chanolfannau beicio yn y naill gampws a'r llall ac yn darparu 5,000 aelodaeth i'w chymuned. Mae cyfleusterau gwefru beiciau a cheir trydan yn parhau i gael eu hehangu.
- Mae'r Brifysgol yn parhau i gefnogi a darparu cyllid tuag at Swyddog Cyswllt Myfyrwyr y Ddinas, Cardiff Digs, rôl sy'n cefnogi prifysgolion Caerdydd ac yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli yn y ddinas, gan helpu mewn cymunedau lleol gyda chymorth a chynghor cymdogol.
- Mae gan y Brifysgol statws Prifysgol Masnach Deg, gan gefnogi rhwydweithiau Masnach Deg Caerdydd a Masnach Deg Cymru. Mae'r dyfarniad yn cydnabod amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n gweithio tuag at fyd mwy cyfiawn, teg a chynaliadwy i bawb. Mae hyn yn cynnwys gweithio i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o faterion defnydd moesegol a chynaliadwy, a chynyddu argaeledd cynhyrchion Masnach Deg mewn siopau.
- Bu Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn dathlu ar ôl cael ei gosod ar frig tabl Cynghrair Werdd y DU. Dyma'r unig dabl cynhwysfawr ac annibynnol o brifysgolion y DU wedi'u rhestru yn ôl perfformiad amgylcheddol a moesegol.

Ymrwymiad i Gynaliadwyedd

Ym mis Gorffennaf 2022, cymeradwyodd Bwrdd y Brifysgol Strategaeth newydd y Brifysgol. Elfen allweddol o hyn yw sicrhau bod ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a sero net yn parhau i fod yn flaenllaw yn ein gwaith, yn ein stad, ein gweithrediadau, ein haddysgu a'n hymchwil.

Mae'r Brifysgol yn parhau i gynllunio i gyflawni ei hymrwymiad i fod yn gampws sero net erbyn 2030. Mae Uwchgynllun Ystadau a Chynllun Rheoli Carbon newydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i gyfrannu at ddyheadau Campws 2030 y Brifysgol - gan ddarparu campws arloesol a chynaliadwy o ansawdd uchel. Bydd buddsoddiad sylweddol yn y blynyddoedd i ddod yn canolbwyntio ar adnewyddu ac ailbwrpasu ein hadeiladau a'n cyfleusterau presennol, yn hytrach nag adeiladu adeiladau newydd, gan leihau ein hól troed carbon.

Mae Met Caerdydd yn rhan annatod o fwrdd argyfwng hinsawdd Cyngor Caerdydd ac yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru i ddatblygu amcangyfrif cost i adeiladau presennol fod yn sero net. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei bwydo i'n Cynllun Rheoli Carbon newydd ochr yn ochr â'n Huwchgynllun.

Mae'r Brifysgol yn cymryd ei chyfrifoldebau amgylcheddol o ddifrif a'i nod yw rheoli ei gweithrediadau mewn ffyrdd sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn economaidd ymarferol ac yn gymdeithasol gyfrifol. Mae'n parhau i ymwreiddio a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy ddatblygu a hyfforddi ei weithwyr a galluogi myfyrwyr i archwilio a datblygu gwerthoedd, sgiliau a gwybodaeth am gynaliadwyedd drwy ymchwil, cwricwla a gweithgareddau allgyrsiol. Y nod yw datblygu amgylchedd gwaith ac astudio sy'n gydlynus yn gymdeithasol, yn amgylcheddol gyfrifol ac yn hollgynhwysol, sy'n ceisio ymgysylltu â staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach.

Yn ystod 2022/23, gwnaethom wella ein safle yn sylweddol yng Nghynghrair Werdd flynyddol prifysgolion, gan godi i'r brig o blith 153 o brifysgolion yn y DU. Mae hyn yn tynnu sylw at ein llwyddiant mewn nifer o feysydd, gan gynnwys polisi cynaliadwyedd, archwilio a rheoli amgylcheddol, rheoli ynni, lleihau carbon ac ymgysylltu â chynaliadwyedd gyda'n staff a'n myfyrwyr.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella cynaliadwyedd ein campws drwy gasgliad o bolisiau sy'n cwmpasu Teithio Busnes, Buddsoddi a Bancio Moesegol, Cadwyni Cyflenwi Moesegol, Masnach Deg, Caffael Cynaliadwy, Aer Glân, Rheoli Ynni a Charbon, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Bwyd Cynaliadwy a Bwyd Môr Cynaliadwy.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn sawl adeilad ar ein campwsau, gyda phob un yn canolbwyntio ar wella profiad myfyrwyr wrth leihau allyriadau carbon. Mae hyn yn cynnwys gwell ffenestri, inswleiddio a gwresogi mewn adeilad o'r 1960au a addaswyd at ddibenion gwahanol, rhaglen gynhwysfawr o fuddsoddi mewn goleuadau LED, awyru mecanyddol a gosod gwresogyddion pwynt defnydd trydan yn lle gwresogyddion dŵr nwy a boeleri a systemau gwresogi mwy effeithlon ar draws pob campws.

Mae'r Brifysgol yn aelod o EAUC (Cymdeithas Amgylcheddol Prifysgolion a Cholegau), IEMA (Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol) a Bwrdd Argyfwng Hinsawdd Caerdydd Un Blaned, gan weithio gyda phartneriaid ledled y rhanbarth.

Rydym wedi parhau i gynyddu ein casgliad o fentrau ymgysylltu â chynaliadwyedd ar gyfer ein staff a'n myfyrwyr, gan gynnwys Gweithdai Atgyweirio, Diwrnodau Cymunedol, Gweithdai Gwyrdd a Chasglu Sbwriel. Mae cyrsiau hyfforddi Llythrennedd Carbon wedi'u treialu'n llwyddiannus gyda staff a myfyrwyr hefyd.

Datganiad Budd Cyhoeddus

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn darparu graddau a gydnabyddir yn broffesiynol, ynghyd ag ymchwil effeithiol ac arloesedd, mewn celf a dylunio, busnes a rheoli, addysg a gwasanaethau cyhoeddus, gwyddorau chwaraeon ac iechyd, a thechnolegau a pheirianeg. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn falch o fod wedi cael ei henwi'n Brifysgol y Flwyddyn y DU ac Iwerddon ar gyfer 2021-22 Times Higher a'i henwi'n brifysgol orau'r DU am gynaliadwyedd yng Nghynghrair Werdd 2022/23 People and Planet, sef yr unig dabl cynhwysfawr ac annibynnol o holl brifysgolion y DU sydd wedi'i raddio yn ôl perfformiad amgylcheddol a moesegol.

Mae'r Brifysgol yn ceisio datblygu addysg uwch ac ymchwil yn y De-ddwyrain, Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Ei hamcan elusennol yw ysbrydoli a galluogi unigolion, sefydliadau a chymunedau i lwyddo drwy arloesi mewn dysgu, ymchwil a menter o ansawdd uchel. Mae budd yr amcan elusennol hwn yn deillio o ddatblygiad deallusol unigolion a thrwy roi'r cyfle iddynt ymuno â bywyd proffesiynol mewn llawer o feysydd darpariaeth gyhoeddus a phreifat. Y buddiolwyr yw'r cyhoedd y mae addysg ar gael iddynt. Mae darpariaeth y Brifysgol yn cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ac mae'n gwasanaethu budd y cyhoedd drwy gyfrannu at adfywio rhanbarthol, diogelu'r amgylchedd a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.

Mae'r Brifysgol yn cynnig cyrsiau mewn amrywiaeth o bynciau gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, addysg athrawon a rheolaeth amgylcheddol, gyda thros 50 o gyrff proffesiynol yn achredu ei chysiau. Mae'n ymgysylltu â phartneriaid ym myd busnes, y sector cyhoeddus a chymunedau mewn ffyrdd amrywiol hefyd. Yn benodol, mae'r Brifysgol wedi gwneud y canlynol yn ystod 2022/23:

- Cyflawni Datblygiad Chwaraeon ar gyfer Cyngor Dinas Caerdydd. Mae'r Brifysgol, drwy Chwaraeon Met Caerdydd, yn gweithio gyda'r Cyngor, Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon a Chlybiau Chwaraeon Proffesiynol Chwaraeon Cymru i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ac ansawdd y profiad ledled y ddinas. Mae'r prosiect, sy'n rhoi pwyslais arbennig ar fynd i'r afael â themâu allweddol, gan gynnwys anabledd, rhywedd a grwpiau difreintiedig, yn cyfrannu hefyd at gryfhau cysylltiadau Met Caerdydd â holl ysgolion cynradd ac uwchradd y ddinas ac yn cefnogi miloedd o oriau o leoliadau gwaith myfyrwyr a chyfleoedd gwirfoddoli.
- Parhau i ddatblygu ein rhaglen Campws Agored, sy'n bartneriaeth rhwng Met Chwaraeon, YChGIC a Chyngor Dinas Caerdydd. Eleni yn unig, gwnaeth y rhaglen ymgysylltu ag 11,000 o ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas.

- Cymryd rhan, fel rhan o'i rhaglen ehangu mynediad, yn y Fenter Ymestyn yn Ehangach sy'n annog pwysigrwydd dysgu ymhlith ardaloedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru chwarterel is ac ysgolion yn y De-ddwyrain.
- Gweinyddu a chefnogi gwasanaeth cynghori a gweithredu Cymru gyfan gwerth £12m mewn mentrau sy'n gysylltiedig â thechnoleg bwyd, gan gynnwys meysydd megis datblygiad technegol, microbiolegol, hylendid a chynnyrch i helpu cleientiaid (BBaCh) i gyflawni allbynnau mesuradwy a buddion ariannol, amgylcheddol a sgiliau clir a chynyddu perfformiad busnes i'r eithaf.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth fel rhyngwyneb effeithiol rhwng y byd academaidd a busnesau yng Nghymru - gan alluogi amrywiaeth eang o fusnesau a arweinir gan dechnoleg i gael mynediad at ymchwil, datblygiad, arbenigedd, cyfleusterau a gwybodaeth.
- Defnyddio ei chyfleusterau chwaraeon i ddarparu rhaglenni chwaraeon iau i blant lleol a chyfleusterau hyfforddi ar gyfer athletwyr ar bob lefel, gan gefnogi cyfranogwyr o'r radd flaenaf mewn amrywiaeth o chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol. Ehangodd y Brifysgol ei rhaglenni Dysgu Nofio a Nofio mewn Ysgolion ar gampws Cyncoed i ddarparu ar gyfer dros 160 o nofwyr.
- Gweithredu Cynllun Benthycu Cymunedol sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i'r cyhoedd at gasgliadau llyfrgell y Brifysgol, gan eu galluogi i fenthycu llyfrau neu ddeunyddiau addysg clyweledol eraill.
- Hyrwyddo'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc Cenedlaethol yn weithredol sydd â'r nod o ysbrydoli pobl ifanc i ddod yn arweinwyr drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

- Cynnal Diwrnodau Cymunedol sy'n dod â chymuned y campws ynghyd ac ymgysylltu â'n cymdogion a'r cymunedau cyfagos. Mae'r digwyddiadau hyn yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth â masnachwyr, elusennau a busnesau bach lleol sy'n gweithredu ochr yn ochr â gweithgareddau'r brifysgol. Mae Met Caerdydd yn cynnig cyfle i fyfyrwyr, staff a'r gymuned fynychu Caffis Atgyweirio am ddim hefyd, a chymryd rhan mewn sesiynau casglu sbwriel yn yr ardaloedd o amgylch pob campws.
- Mae'r Brifysgol yn un o noddwyr allweddol beiciau OVO rhwydwaith beicio cyhoeddus y ddinas, gyda hybiau beicio ym mhob campws a darparu 5,000 aelodaeth i'w chymuned.
- Cefnogaeth a chyllid parhaus tuag at Swyddog Cyswllt Myfyrwyr y ddinas, rôl sy'n cefnogi prifysgolion Caerdydd ac yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli yn y ddinas, gan helpu cymunedau lleol.
- Cefnogaeth barhaus i'r Rhaglen Bwyd a Hwyl (a elwid gynt yn Gyfoethogi Gwyliau Ysgol) sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Ers lansio'r rhaglen yn 2016, mae nifer yr ysgolion sydd wedi cofrestru wedi parhau i dyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Sicrhau cyllid drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i wella'r ddarpariaeth Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff ledled Caerdydd, gan gryfhau'r berthynas rhwng gofal sylfaenol, presgripsiynu cymdeithasol, atgyfeirio ymarfer corff a gweithgarwch corfforol cymunedol. Mae'r rhaglen yn cyfrannu at y Strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach a strategaeth Symud Mwy Bwyta'n Dda ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg.

- Cymryd rhan yn Camu i Mewn - prosiect arloesol a ddatblygwyd rhwng Chwaraeon Met Caerdydd a swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae'r rhaglen yn dargyfeirio pobl ifanc 11 i 18 oed oddi wrth wasanaethau cyfiawnder ieuencid ac i gyfleoedd mwy cadarnhaol drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyflwynodd Met Chwaraeon y rhaglen iechyd cymunedol Symud Mwy a oedd yn cynnwys y Rhaglen Ymarfer Rheoli Codymau, y rhaglen genedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a'r Cynllun Hamdden Egniol. Nod yr holl raglenni yw annog oedolion hŷn i symud mwy a gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol.
- Eleni, gwnaeth ein timau lansio'r strategaeth Symud Mwy mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd. Symud Mwy yw'r Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon gyntaf ar gyfer y ddinas ac mae'n mabwysiadu dull seiliedig ar systemau cyfan i sbarduno newid cynaliadwy ac ystyrlon ledled Prifddinas Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, roedd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn y Brifysgol yn gallu cael Grant Dysgu'r Cynulliad ac roedd myfyrwyr sy'n hanu o Loegr yn gallu cael y Grant Cynhaliaeth; roedd y Brifysgol yn cynnig ei bwrsariaethau ei hun hefyd. Roedd amryw o gynlluniau eraill ar gael hefyd i gynorthwyo myfyrwyr i gael mynediad at addysg uwch, a gweinyddodd y Brifysgol gronfa wrth gefn ddewisol ar gyfer y rhai a oedd angen cymorth ariannol i barhau â'u hastudiaethau. Cynigiodd y Brifysgol bob math o sesiynau blasu achrededig mewn canolfannau allgymorth a phrosiectau pwrpasol gyda'r nod o godi dyheadau ymysg cymunedau difreintiedig/heb gynrychiolaeth ddigonol.

Yn yr un modd â chorfforaethau addysg uwch elusennol eraill yn y DU, mae'r Brifysgol yn cael ei goruchwylio gan Fwrdd Llywodraethwyr, a'r rhan fwyaf ohonynt yn ddi-dâl ac fel arall yn annibynnol ar y Brifysgol. Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn cynnwys cynrychiolaeth o blith staff a myfyrwyr.

Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gorff Llywodraethu Prifysgol Metropolitan Caerdydd (y “brifysgol”)

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol grŵp Prifysgol Metropolitan Caerdydd a datganiadau ariannol y brifysgol (y “datganiadau ariannol”):

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r brifysgol ar 31 Gorffennaf 2023, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion, a newidiadau i gronfeydd wrth gefn y grŵp a'r brifysgol a llifoedd arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 “Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon”, a chyfraith berthnasol);
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion y Datganiad ynghylch Arferion Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch; ac
- wedi'u paratoi'n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol, a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol (yr “Adroddiad Blynyddol”), sy'n cynnwys: Datganiadau o'r Sefyllfa Ariannol Gyfunol a Sefyllfa Ariannol y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2023; Datganiadau o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Brifysgol, Datganiadau o Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn Cyfunol a Chronfeydd Wrth Gefn y Brifysgol a'r Datganiad Llif Arian Cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r Datganiad o Brif Bolisiau Cyfrifyddu; a'r nodiadau ar y datganiadau ariannol.

Sail y farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (“ISAs (UK)”) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr dros archwilio'r datganiadau ariannol ein hadroddiad. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

Annibyniaeth

Gwnaethom barhau'n annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r grŵp a'r brifysgol i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod defnydd y Corff Llywodraethu o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld pob digwyddiad neu sefyllfa yn y dyfodol, nid yw'r casgliad hwn yn warrant o allu'r grŵp a'r brifysgol i barhau fel busnes hyfyw.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Adrodd ar wybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad fel archwilwyr arnynt. Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar sail hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn yr adroddiad hwn, unrhyw fath o sicrwydd arni.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn yr archwiliad, neu'n ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan mewn ffordd berthnasol fel arall. Os gwelwn anghysondeb neu gamddatganiad ymddangosiadol perthnasol, mae'n ofynnol i ni gyflawni gweithdrefnau i benderfynu a oes camddatganiad perthnasol o'r datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i cham-ddatgan mewn modd perthnasol, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn seiliedig ar y cyfrifoldebau hyn.

Yn seiliedig ar y cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod a'n gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad, mae Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd barn a materion penodol hefyd fel y disgrifir isod.

Adroddiad Bwrdd y Llywodraethwyr

O dan Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os yw'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Bwrdd y Llywodraethwyr, yn ein barn ni, yn anghyson mewn unrhyw fodd perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym unrhyw eithriadau i'w hadrodd sy'n deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yng Nghyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr a nodir ar dudalen 46, mae'r Corff

Llywodraethu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol hefyd am y cyfryw reolaeth fewnol ag y maent yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion yn ymwneud â busnes hyfyw a gan ddefnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod y Corff Llywodraethu naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp a'r brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu fod â dim dewis realistig amgen heblaw gwneud hynny.

Cyfrifoldebau archwilwyr dros archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym yn gymwys i weithredu ac wedi ein penodi fel archwilwyr o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dani.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warrant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyriar yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ar sail ein dealltwriaeth o'r sefydliad/diwydiant, nodwyd mai'r prif risgiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw'r rhai sy'n ymwneud â

deddfwriaeth iechyd a diogelwch a chyflogaeth y DU, ynghyd â Chod Rheoli Ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC'), ac ystyriwyd i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom ystyried hefyd y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol megis Deddf Elusennau 2011 a Chyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC (W21/19HE). Gwnaethom werthuso cymhellion a chyfleoedd rheolwyr i drin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau), a phenderfynwyd bod y prif risgiau'n gysylltiedig â phostio trafodion amhriodol gyda'r nod o orddatgan perfformiad a/neu sefyllfa ariannol y grŵp neu'r brifysgol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn cynnwys:

- Adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a chynnal trafodaethau â rheolwyr, gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu a amheuir o ddiffyg cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau neu dwyll;
- Defnyddio technegau archwilio cyfrifiadurol i nodi a phrofi cofnodion cyfnodolion risg uwch, yn enwedig y rhai yr ystyriwn fod ganddynt gyfuniadau cyfrif anarferol;
- Adolygu priodoldeb y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth amcangyfrif gwerth y cynllun pensiwn buddion diffiniedig;
- Cael cadarnhad trydydd parti o holl drefniadau bancio ac ariannu'r grŵp.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau nad ydynt yn perthyn yn agos i ddigwyddiadau a thrafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol. Hefyd, mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol oherwydd twyll yn uwch na'r risg o beidio â chanfod un sy'n deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cuddio bwriadol drwy, er enghraifft, ffugio neu gamliwio bwriadol, neu drwy gydgyllwynio.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y safbwyntiau, wedi cael ei baratoi ar gyfer Corff Llywodraethu'r brifysgol yn unig fel corff yn unol ag adran 13(2) o Erthyglau Llywodraethu'r brifysgol ac adran 124B o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 fel y'i diwygiwyd gan adran 71 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac adran 151 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno (Rhan 4 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008), ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth roi'r safbwyntiau hyn, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y gallai ddod i'w ddwylo, ac eithrio lle y cytunir yn benodol gyda'n caniatâd ysgrifenedig penodol ymlaen llaw.

Adroddiadau eraill sy'n ofynnol

Barn ynghylch materion eraill a bennir yng Nghod Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a'r Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae gofynion cyfarwyddyd cyfrifon CCAUC wedi cael eu bodloni;
- mae cyllid o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y brifysgol at ddibenion penodol wedi cael ei gymhwyso'n briodol i'r dibenion hynny a'i reoli'n unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae cyllid a ddarparwyd gan CCAUC wedi cael ei gymhwyso yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd,

Cod Rheolaeth Ariannol CCAUC ac unrhyw delerau ac amodau eraill sy'n gysylltiedig ag ef; ac

- mae cyllid a ddarparwyd gan CCAUC wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion y'i derbyniwyd ar eu cyfer.

Digonolrwydd cofnodion cyfrifyddu a'r wybodaeth a'r esboniadau a gafwyd

O dan Ddeddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os credwn:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan y brifysgol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y brifysgol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r adroddiadau a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw eithriadau i'w hadrodd sy'n deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd
29 Tachwedd 2023

Cyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol

Yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988, Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, solfedd y Brifysgol ac am ddiogelu ei hasedau. I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol i ddangos ac esbonio trafodion y Brifysgol a datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol. Mae'n gyfrifol am nodi'r rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ar gyfer paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamdatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall a allai ddigwydd.

Erthyglau Llywodraethu a'r Offeryn Llywodraethu yw'r dogfennau cyfreithiol sy'n rheoli'r ffordd mae Met Caerdydd yn ymddwyn ac yn gweithredu. Mae'r dogfennau hyn yn egluro cyfrifoldebau allweddol Bwrdd y Llywodraethwyr, yr Is-Ganghellor a'r Bwrdd Academaidd, a'r sail ar gyfer dirprwyo'r cyfrifoldebau hyn, yn ogystal â rheolau gweithdrefnol.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu Datganiad o Gyfrifoldeb Sylfaenol, fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor Cadeiryddion y Brifysgol, a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol. Mae'n egluro prif gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr ym Met Caerdydd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol, y Datganiadau Ariannol Blynyddol a'r Cynllun Strategol Corfforaethol. Mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi sefydlu Pwyllgor Adnoddau sydd ag awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd mewn perthynas â materion ariannol. Fodd bynnag, ni all y Bwrdd ddirprwyo cymeradwyaeth y Gyllideb Flynyddol na'i phrif gyfrifoldeb dros solfedd y Brifysgol. Y Llywydd a'r Is-Ganghellor yw Swyddog Cyfrifyddu dynodedig y Brifysgol ac mae'n gyfrifol i'r Bwrdd am baratoi cyllidebau a datganiadau ariannol blynyddol ac am reoli adnoddau o fewn y cyllidebau hynny. Ac eithrio pan gânt eu darparu i'r gwrthwyneb, gall y Llywydd a'r Is-Ganghellor ddirprwyo

swyddogaethau yn unol â'r Cynllun Dirprwyo a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr, ond ni all ddirprwyo cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn y pen draw, i staff eraill.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a chyfraith berthnasol), y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch (2019), Deddf Elusennau 2011 a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill.

Mae'n ofynnol i Fwrdd y Llywodraethwyr baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol a'u hincwm a'u gwariant, enillion a cholledion a newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r brifysgol sicrhau:

- bod polisiau cyfrifyddu addas yn cael eu dewis a'u cymhwysu'n gyson.
- bod dyfarniadau ac amcangyfrifon yn rhesymol ac yn ddoeth.
- bod safonau cyfrifyddu cymwys y DU a'r Datganiad o Arferion a Argymhellir wedi'u dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw ymadawiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.
- bod sail busnes hyfyw cyfrifyddu yn briodol.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau:

- bod cronfeydd o ffynonellau allanol, a weinyddir gan y Brifysgol at ddibenion penodol, wedi'u rheoli a'u defnyddio'n briodol.
- bod incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â Chod Rheolaeth Ariannol CCAUC.
- bod grantiau'r Cyngor Cyllido wedi'u defnyddio'n unol â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrthynt a'u defnyddio at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer.
- bod adnoddau a gwariant y Brifysgol yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- bod asedau'r Brifysgol yn cael eu diogelu i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.
- bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill.

- bod y Brifysgol yn darparu Rheoliadau Ariannol mewnol sy'n diffinio cyfrifoldebau dirprwyedig, gyda gofynion ffurfiol wedi'u diffinio'n glir ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, gyda phenderfyniadau buddsoddi'n destun gwerthuso ac adolygu manwl. Mae'n cwblhau prosesau cynllunio a chyllidebu cynhwysfawr, sy'n integreiddio paratoi cyllidebau incwm, gwariant a chyfalaf blynyddol. Cynnal adolygiadau rheolaidd o berfformiad pob un o unedau cynllunio a chyllidebu'r Brifysgol, gan gynnwys adolygiadau misol o ganlyniadau ariannol sy'n cynnwys adrodd amrywiol a diweddarau rhagolygon.

Datganiad o'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu

1 | Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP): Addysg Bellach ac Uwch 2019 ac yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102; y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Deddf Elusennau 2011. Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso gofyniad budd cyhoeddus perthnasol FRS102. Paratwir y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (wedi'i addasu gan ailbriso asedau sefydlog). Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu wedi'u cymhwyso'n gyson ac eithrio fel y disgrifir yn wahanol ac fe'u nodir isod.

2 | Sail y Cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd a'i his-ymgymeriadau sy'n eiddo llwyr iddi, Cardiff Met Company Ltd a Cardiff Metropolitan Education Services (Beijing) Ltd. Yn ogystal, mae gan y Brifysgol fuddiant cyfranddaliadau mwyafrif (55%) mewn cwmni deillio sef Fovo Technology Ltd, a chaiff balans y cyfranddaliadau eu dal gan ddau o academyddion y Brifysgol. Mae gweithgarwch y cwmni hwn wedi'i gydgrynhoi i'r datganiadau ariannol hyn hefyd. Fodd bynnag, mae diddordeb di-reolaeth y cyfranddalwyr lleiafrifol yn asedau net a gwaged y cwmni yn amherthnasol iawn i grŵp y Brifysgol. Felly, ni chyflwynwyd y buddiannau hyn nad ydynt yn rheoli. Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr gan nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad sylweddol dros benderfyniadau polisi. Mae gwerthiannau ac elw o fewn y grŵp yn cael eu dileu'n llawn wrth gydgrynhoi.

3 | Busnes Hyfyw

Mae datganiadau ariannol y Brifysgol yn cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw. Mae'r Brifysgol mewn sefyllfa o hylifedd cryf, mae balansau arian parod yn uchel ac mae'n defnyddio cyfleusterau benthyca lefel isel. Ynghyd â rheolaethau gwariant cryf, bydd

gan y Brifysgol ddigon o arian i barhau i gyflawni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddisgyn yn ddyledus.

4 | Cydnabod Incwm

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau'n cael ei gredydu i'r Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau'n cael eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol, neu pan fydd telerau'r contract wedi'u bodloni.

Mae'r incwm o ffioedd yn cael ei ddatgan heb dynnu unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt, ac fe'i credydir i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol dros y cyfnod y mae myfyrwyr yn astudio ynddo. Lle mae swm y ffi dysgu wedi'i leihau, gan ddisgownt, dangosir yr incwm derbyniadwy yn glir o'r disgownt. Caiff ysgoloriaethau ffioedd eu trin fel disgownt ac fe'u didynnir o'r incwm.

Mae incwm buddsoddi wedi'i gredydu i'r Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail dderbyniadwy.

a) Cyllid Grant

Mae cyllid grant, gan gynnwys ariannu grantiau'r cyngor; grantiau ymchwil o ffynonellau'r llywodraeth; a grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cydnabod fel incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm a bod amodau cysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Cydnabyddir incwm a dderbynnir cyn i amodau cysylltiedig â pherfformiad gael eu bodloni fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr ar y Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol a'i ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

b) Rhoddion a Gwaddolion

Mae trafodion digyfnawid heb amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn rhoddion a gwaddolion. Mae rhoddion a gwaddolion sydd â chyfyngiadau a osodir gan roddwyr yn cael eu cydnabod mewn incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r arian.

Cedwir incwm o fewn y gronfa gyfyngedig hyd nes y caiff ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath a bryd hynny rhyddheir yr incwm i gronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddiad wrth gefn.

Cydnabyddir rhoddion heb unrhyw gyfyngiadau mewn incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r arian.

Cofnodir incwm buddsoddi a gwerthfawrogiad o waddolion mewn incwm yn y flwyddyn y mae'n codi ac fel naill ai incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r cyfyngiadau a gymhwysir i'r gronfa waddol unigol.

Gall fod pedwar prif fath o roddion a gwaddol wedi'u nodi o fewn cronfeydd wrth gefn:

- Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid defnyddio'r rhodd at amcan penodol;
- Gwaddolion parhaol anghyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid buddsoddi'r gronfa'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol;
- Gwaddolion cyfyngedig y gellir eu gwario - mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol heblaw prynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, ac mae gan y Brifysgol y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf;
- Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w chymhwyso at amcan penodol.

c) Grantiau Cyfalaf

Cydnabyddir grantiau cyfalaf mewn incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r arian yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

5 | Ystyried Buddion Ymddeol

Mae'r Brifysgol yn gweithredu tri chynllun pensiwn ar gyfer staff y Brifysgol; Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (CVGPF), y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS). Mae'r CVGPF a'r USS yn gynlluniau ariennir.

Mae'r CVGPF yn cael ei briso bob tair blynedd gan actiwari â chymwysterau proffesiynol gan ddefnyddio'r dull uned a ragwelir, ac mae cyfradd y cyfraniad sy'n daladwy'n cael ei phennu gan yr Awdurdod Gweinyddu ar gyngor yr actiwari.

Mae'r TPS yn destun prisiad actiwaraidd bob pum mlynedd gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth gan ddefnyddio'r dull mynediad oedran. Caiff cyfradd y cyfraniadau ar gyfer y TPS ei phennu gan yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon ar gyngor yr actiwari.

Mae'r USS yn gynllun aml-gyflogwr lle nad yw'n bosibl nodi'r asedau a'r rhwymedigaethau y gellir eu priodoli i'r Brifysgol ar lefel aelodau oherwydd natur gyffuddiannol y cynllun ac felly cyfrifir am y cynllun hwn fel cynllun buddion ymddeol cyfraniadau diffiniedig.

Fodd bynnag, yn unol â FRS102, cofnodir atebolrwydd o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad cytundebol i ariannu diffygion blaenorol o fewn cynllun USS.

a) Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun cyfraniadau diffiniedig lle mae'r Brifysgol yn talu cyfraniadau sefydlog i endid ar wahân ac ni fydd ganddi unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol na deongliadol i dalu symiau pellach. Mae rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cydnabod fel cost yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pan fydd gwasanaethau'n cael eu rhoi gan weithwyr. O ystyried natur y TPS, rhoddir cyfrif am gyfraniadau i'r cynllun hwnnw ar y sail hon.

b) Cynllun Buddion Diffiniedig

Mae cynlluniau buddion diffiniedig yn gynlluniau buddion ôl-gyflogaeth ac eithrio cynlluniau cyfraniadau diffiniedig. O dan gynlluniau buddion diffiniedig, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion y cytunwyd arnynt i weithwyr presennol a chyn-weithwyr, ac ysgwyddir risg actiwaraidd (y bydd y buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a risg buddsoddi (y bydd enillion ar asedau a neilltuwyd i ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyliadau), o ran sylwedd, gan y Brifysgol. Dylai'r grŵp gydnabod atebolrwydd am ei rwymedigaethau o dan gynlluniau buddion diffiniedig net asedau'r cynllun. Mesurir yr atebolrwydd buddion diffiniedig net hwn fel amcangyfrif o swm y buddiant y mae gweithwyr wedi'i ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol, wedi'i ddisgowntio i bennu ei werth presennol, llai gwerth teg asedau'r cynllun (am bris cynnig). Cyflawnir y cyfrifiad gan actiwari cymwys

gan ddefnyddio'r dull credyd uned a ragwelir. Lle mae'r cyfrifiad yn arwain at ased net, mae cydnabyddiaeth o'r ased yn gyfyngedig i'r graddau y gall y Brifysgol adennill y gwarged naill ai drwy gyfraniadau gostyngedig yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun.

c) CGGPF – Cynllun Llywodraeth Leol

Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn gynllun buddion diffiniedig a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac ar hyn o bryd mae'n darparu buddion yn seiliedig ar enillion wedi'u hailbriso ar gyfartaledd gyrra. Pennir cyfraniadau bob tair blynedd o ganlyniad i brisiad actiwaraid y gronfa sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Cynhaliwyd prisiad actiwaraid diweddaraf y gronfa ar 31 Mawrth 2022 ac mae wedi pennu cyfraniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2026.

Mae'r actiwari wedi cwblhau cyfrifiadau at ddibenion cyfrifyddu pensiwn yn seiliedig ar yr eitemau data canlynol, a dderbyniwyd o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg.

- Canlyniadau'r prisiad ar 31 Mawrth 2022, a gynhaliwyd at ddibenion cyllido a chanlyniadau adroddiad FRS102 31 Gorffennaf 2023, a gynhaliwyd at ddibenion cyfrifyddu.
- Amcangyfrif o eitemau incwm a gwariant y gronfa gyfan ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2023.
- Cronfeydd enillion buddsoddi ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Ebrill 2023 a ffurflenni marchnad (a amcangyfrifir lle bo angen) wedi hynny ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2023.
- Amcangyfrif o incwm a gwariant y gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2023.
- Manylion unrhyw ymddeoliadau cynnar newydd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2023 sydd wedi'u talu ar sail heb eu lleihau, nad ydynt wedi'u rhagweld yng nghost arferol gwasanaeth cyflogwr; a
- Manylion unrhyw setliadau ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2023.

Nid yw asedau'r Gronfa wedi'u gwahanu na'u dyrannu ar wahân i gyflogwyr o fewn y gronfa. Felly, mae'r balans asedau a gynhwysir yn y datganiadau ariannol yn ddyraniad tybiannol a amcangyfrifir gan yr actiwari gan ddefnyddio'r wybodaeth y cyfeirir ati uchod. Mae'r dyraniad yn cael ei ddwyn ymlaen o'r hyn a gytunwyd pan dderbyniwyd y cyflogwr i'r Gronfa ac nid yw'n cael ei ailgyfrifo ar bob prisiad tair blynedd.

6 | Buddion Cyflogaeth

Mae buddion cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau a ddigolledir yn cael eu cydnabod fel cost yn y flwyddyn pan fydd y gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r Brifysgol. Caiff unrhyw fuddion nas defnyddiwyd eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawl nas defnyddiwyd.

7 | Prydlesi Gweithredol

Codir costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Mae unrhyw bremymau neu gymhellion prydles wedi'u gwasgaru dros dymor byrraf y brydles.

8 | Arian Tramor

Mae trafodion mewn arian tramor yn cael eu trosi'n arian cyfred gweithredol priodol endidau'r Grŵp yn unol â'r gyfradd gyfnewid dramor sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol sydd mewn arian tramor ar ddyddiad y Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol yn cael eu trosi'n arian cyfred gweithredol yn unol â'r gyfradd gyfnewid dramor sydd ar waith ar y dyddiad hwnnw. Mae gwahaniaethau cysylltiedig â'r gyfradd gyfnewid dramor sy'n codi wrth drosi yn cael eu cydnabod mewn Gwarged neu Ddiffyg. Mae asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn ariannol sy'n cael eu mesur yn nhermau cost hanesyddol mewn arian tramor yn cael eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Mae asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn ariannol sydd mewn arian tramor sy'n cael eu datgan ar werth teg yn cael eu haildrosi'n arian cyfred gweithredol yn unol â'r cyfraddau cyfnewid tramor a oedd mewn grym ar y dyddiadau y pennwyd y gwerth teg.

9 | Asedau Sefydlog

a) Tir ac Adeiladau

Mae rhai eitemau o dir ac adeiladau a ailbrisiwyd i werth teg ar neu cyn y dyddiad y symudwyd i SORP Addysg Bellach ac Uwch 2015 yn cael eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ailbriso ar ddyddiad yr ailbriso hwnnw, llai dibrisiant cronedig, a cholledion amhariad cronedig.

Mae costau a gafwyd mewn perthynas â thir ac adeiladu ar ôl prynu cychwynnol ac adeiladu, a chyn priso, yn cael eu cyfalafu i'r graddau eu bod yn cynyddu'r buddion disgwylidig i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn cael ei ddibrisio oherwydd ystyrir bod ganddo oes ddefnyddiol amhenodol. Mae adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwylidig, sef rhwng 20 a 75 mlynedd.

Ni chodir dibrisiant ar asedau yn ystod y gwaith adeiladu.

b) Offer

Mae offer sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol yn cael ei ddileu i'r Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant yn y flwyddyn gaffael. Mae unrhyw offer arall yn cael ei gyfalafu ar sail cost. Mae offer wedi'i gyfalafu'n cael ei ddibrisio ar sail llinell syth dros ei oes economaidd ddefnyddiol, sef rhwng 3 a 10 mlynedd.

Mae offer a brynwyd ar gyfer prosiectau ymchwil yn cael ei drin a'i ddibrisio ar yr un sail â gwariant ar offer arall.

Mae dulliau dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol.

c) Costau benthyca

Mae costau benthyca y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu neu gynhyrchu ased cymwys yn cael eu cyfalafu.

10 | Asedau Anniriaethol

Mae costau datblygu meddalwedd yn cael eu cyfalafu a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig o rhwng pump a deng mlynedd. Mae datblygiadau o'r fath yn dechrau amorteiddio pan fyddant yn dechrau cael eu defnyddio.

Eiddo deallusol: Mae'r Grŵp yn datblygu technoleg feddalwedd sy'n ymwneud â ffyrdd newydd o greu a rhyngweithio â delweddu digidol. Mae costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi'r dechnoleg yn cael eu cydnabod fel ased anniriaethol pan fodlonir y meini prawf canlynol;

- Mae'n dechnegol ymarferol cwblhau'r feddalwedd sylfaenol fel y bydd y dechnoleg ar gael i'w defnyddio,
- Mae'r rheolwyr yn bwriadu cwblhau'r datblygiad a gwerthu neu drwyddedu defnydd o'r dechnoleg,
- Gellir dangos y bydd y dechnoleg yn cynhyrchu buddion economaidd tebygol yn y dyfodol sy'n gyfartal o leiaf o ran gwerth i werth cario ymlaen y Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol,
- Mae adnoddau technegol ac ariannol digonol ar gael i gwblhau'r datblygiad ac i werthu neu drwyddedu'r dechnoleg, a
- Gellir mesur y gwariant sy'n briodoladwy i ddatblygu'r dechnoleg yn ddibynadwy. .

Mae gwariant datblygu arall nad yw'n bodloni'r meini prawf hyn yn cael ei gydnabod fel traul fel y mae'n codi. Nid yw costau datblygu a gydnabuwyd yn flaenorol fel cost yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae eiddo deallusol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yn dechrau ar y dyddiad y mae'r datblygiad wedi'i gwblhau, ac mae'r dechnoleg ar gael i'w gwerthu neu ei thrwyddedu.

11 | Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau asedau anghyfredol yn cael eu dal ar y Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol ar sail cost amorteiddiedig llai amhariad.

Mae buddsoddiadau mewn is-gwmnïau'n cael eu cario ar sail cost llai amhariad yn natganiadau ariannol y Brifysgol.

Mae buddsoddiadau asedau cyfredol yn cael eu cadw ar y Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol ar sail cost amorteiddiedig llai amhariad.

12 | Stoc

Nodir stociau ar sail yr isaf o gost neu werth net y gellir ei wireddu ac fe'i mesurir gan ddefnyddio fformiwla cost gyfartalog.

13 | Arian Parod a'r hyn sy'n cyfateb i Arian Parod

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy yn ôl y galw a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Mae'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau tra hylifol tymor byr, â chyfnod rhybudd o 3 mis neu lai, y mae'n hawdd eu trosi'n symiau arian hysbys ac sy'n destun risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

14 | Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol:

- Pan fydd gan y Brifysgol rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
- Pan fydd yn debygol y bydd angen all-lif buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; a
- Phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Mae'r swm a gydnabyddir fel darpariaeth yn cael ei bennu drwy ddisgowntio'r llifoedd arian disgwylidig yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Brifysgol y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond pan fydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol yn digwydd, neu beidio, nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond mae naill ai'n annhebygol y bydd angen all-lif adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Mae ased digwyddiadol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Brifysgol y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau dim ond pan fydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol yn digwydd, neu beidio, nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol ond fe'u datgelir yn y nodiadau.

15 | Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011, ac felly mae'n elusen o fewn ystyr Paragraff 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid 2010. Yn unol â hynny, mae'r Brifysgol wedi'i heithrio, o bosibl, o drethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbynnir o fewn categorïau a gwmpasir gan adran 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu adran 256 o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae'r cyfryw incwm neu enillion yn cael eu cymhwyso at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW anadferadwy ar fewnbynau'n cael ei chynnwys yng nghostau'r cyfryw fewnbynau. Mae unrhyw TAW anadferadwy a ddyrennir i asedau sefydlog yn cael ei chynnwys yn eu cost.

Mae is-gwmnïau'r Brifysgol yn atebol i dalu Treth Gorfforaeth yn yr un ffordd ag unrhyw sefydliad masnachol arall. Nid oes unrhyw dâl am drethiant wedi'i gynnwys mewn perthynas â gweithgareddau'r Is-gwmnïau gan fod holl elw trethadwy'r cwmnïau hyn yn cael ei drosglwyddo i'r Brifysgol o dan y cynllun Rhodd Cymorth.

Darperir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau amseru sy'n arwain at rwymedigaeth ar ddyddiad y Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol i dalu mwy o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth, ar ddyddiad yn y dyfodol, ar gyfraddau y disgwylir iddynt fod yn berthnasol pan fyddant yn crisialu yn seiliedig ar gyfraddau a chyfraith bresennol. Mae gwahaniaethau amseru'n codi yn sgil cynnwys eitemau incwm a gwariant mewn cyfrifiadau trethiant mewn cyfnodau sy'n wahanol i'r rhai y maent wedi'u cynnwys ynddynt yn y datganiadau ariannol. Cydnabyddir asedau treth ohiriedig pan fydd yn fwy tebygol na pheidio y byddant yn cael eu hadfer. Nid yw asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig yn cael eu disgowntio.

16 | Cronfeydd wrth Gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu dosbarthu'n rhai cyfyngedig neu anghyfyngedig. Mae cronfeydd wrth gefn gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau sydd, trwy waddol i'r Brifysgol, yn cael eu dal fel cronfa sy'n gyfyngedig yn barhaol y mae'n rhaid i'r Brifysgol ei dal am byth.

Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi dynodi diben penodol, ac felly mae'r Brifysgol wedi'i chyfyngu o ran defnyddio'r cyllid hwn.

17 | Dyfarniadau cyfrifyddu critigol ac ansicrwydd amcangyfrif

Cynlluniau pensiwn: mae'r tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r darpariaethau diffyg pensiwn USS a C&VPF yn cynrychioli amcangyfrif cyfrifyddu allweddol yn seiliedig ar sensitifrwydd tybiaethau (nodyn 19 a nodyn 24).

Adferadwyedd Dyledwyr: Mae'r Brifysgol yn gwneud amcangyfrif o werth adferadwy dyled sy'n ddyledus. Wrth bennu'r gwerth hwn, mae'r Brifysgol yn ystyried proffil oedran dyledion, gwybodaeth am dyledwyr unigol ac asesiad o amodau economaidd presennol.

